# Rhaglen Gyflawn

Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR GWE**

Dyddiad ac Amser

**9.30 y.b., DYDD MERCHER, 1AF CHWEFROR, 2017**

Lleoliad

**Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Ffordd Abergele, Bae Colwyn, LL29 8BF**

Pwynt Cyswllt

**Einir Rhian Davies**

**01286 679868**

**cabinet@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd DyddiadAmhenodol)

# CYD-BWYLLGOR GWE

## Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Kenneth P. Hughes | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cynghorydd Gareth Thomas | Cyngor Gwynedd |
| Cynghorydd Wyn Ellis Jones | Cyngor Bwrdeistref Conwy |
| Cynghorydd Eryl Williams | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cynghorydd Chris Bithell | Cyngor Sir y Fflint |
| Cynghorydd Michael Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

## Aelodau cyfetholedig heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Rita Price | Esgobaeth Wrecsam |
| Diane Chisholm | Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd |
| Jonathan Morgan | Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig |
| Alison Fisher | Cynrychiolydd Llywodraethwr |
| Mair Herbert | Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd |

## Swyddogion Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Delyth Molyneux | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Dr Lowri Brown | Cyngor Bwrdeistref Conwy |
| Karen Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| Ian Budd | Cyngor Sir y Fflint |
| John Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

## Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Arwyn Thomas | Cyngor Gwynedd |
| Iwan G. Evans | Awdurdod Lletyol |
| Dafydd L. Edwards | Awdurdod Lletyol |
| Martyn Gray | Llywodraeth Cymru |
| Susan Owen Jones | Rheolwr Busnes a Chyllid GwE |
| Dr Gwynne Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Rhys Howard Hughes | Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Cefnogaeth a Broceru) GwE |
| Alwyn Jones | Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Safonau) GwE |

## Sylwedydd

| | |
|---|---|
| Gareth Jones | Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol GwE |

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad buddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

I nodi unrhyw fater sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried


**4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** 4 - 7

(copi'n atodedig)

**5. ADOLYGIAD O DREFNIADAU GWEITHREDU GWE** 8 - 17

**6. PENODI PRIF SWYDDOG / RHEOLWR GYFARWYDDWR GWE** 18 - 25

**7. MODEL UWCHRADD & ARWEINYDDIAETH DDOSRANEDIG** 26 - 35

**8. ROL GWE WRTH APWYNTIO PENAETHIAID NEWYDD** 36 - 38

**9. PROSES GOSOD TARGEDAU RHANBARTHOL** 39 - 60

**10. DATBLYGU LLYTHRENNEDD A RHIFEDD AR DRAWS POB SECTOR YN RHANBARTH GWE** 61 - 63

**CYD-BWYLLGOR GwE**
**25.11.16**

**Yn bresennol:** **Y Cyng. Wyn Ellis Jones (Cadeirydd)**
**Y Cyng. Michael Williams (Is-gadeirydd)**

**Y Cynghorwyr:** Chris Bithell, Kenneth P. Hughes, Eryl Wyn Jones a Gareth Thomas.

**Aelodau Cyfetholedig heb bleidlais:** Alison Fisher (Cynrychiolydd Llywodraethwyr), Jonathan Morgan (Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig)

**Swyddogion Heb bleidlais:** Ian Budd (Cyfarwyddwr Arweiniol - Cadeirydd y Bwrdd Rheoli (Cyngor Sir y Fflint), John Davies (Cyngor Wrecsam), Garem Jackson (Cyngor Gwynedd), Julian Molloy (Cyngor Sir Dinbych), Delyth Molyneux (Cyngor Sir Ynys Môn),

**Hefyd yn Bresennol:** Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE), Rhys Howard Hughes (Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE), Gareth Jones (Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol GwE), Susan Owen Jones (Rheolwr Busnes a Chyllid GwE), Martyn Gray (Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru), Hefin Owen (Ar ran Pennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd), Arwyn Thomas (Rheolwr Cyfarwyddwr GwE), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol yr Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd), ac Einir Rh Davies (Swyddog Cefnogi Aelodau'r Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd)

**Ymddiheuriadau:** Dafydd L Edwards (Gwynedd) a Dr Lowri Brown (Conwy)

## 1. I ETHOL CADEIRYDD AR GYFER Y PWYLLGOR HWN

Enwebodd Cyng. Gareth Thomas y Cyng. Wyn Ellis Jones yn Gadeirydd ac eiliwyd yr enwebiad gan Cyng. Kenneth P Hughes.

Diolchwyd i'r Cyng. Eryl Williams am ei waith fel Cadeirydd Cyd-bwyllgor GwE.

## 2. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dafydd L Edwards (Gwynedd) a Dr Lowri Brown (Conwy)

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan Arwyn Thomas ar gyfer Eitem 6

## 4. MATERION BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw fater brys

## 5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 22 Medi 2016, Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir, heb unrhyw fater yn codi ohonynt.

**Penderfynwyd: Derbyn y cofnodion**

6. **TREFNIADAU INTERIM – RHEOLWR GYFARWYDDWR GWE**

Oherwydd cyfyngiadau amser cadarnhawyd bod gweithredu eisoes wedi cymryd lle ers y cyfarfod 22/9/16 o ran trefniadau interim ar gyfer Rheolwr Gyfarwyddwr GwE. Cytunwyd bod rhaid newid y telerau i ddeilydd newydd y swydd o ran ymestyn y cyfnod rhybudd ymddiswyddiad i dri mis i gyd fynd a swyddi eraill o'r run lefel.

Cafwyd cadarnhawyd na fydd HFE yn dychwelyd i'r swydd gan ei fod wedi ymddiswyddo 31/10/16 a bod angen meddwl yn ofalus cyn hysbysebu'r swydd. Nodwyd nad oedd aelodau'r Cyd-bwyllgor yn gyfforddus gyda rôl y cydbwyllgor gyda'r trefniadau interim, sef llywodraethu GwE (ond ddim yn anghyfforddus gyda'r penodiad).

Cwestiynwyd beth fyddai ymroddiad AT yn ymarferol i'r rôl Rheolwr Gyfarwyddwr Interim GwE ble cadarnhawyd y byddai yn rhannu ei ddyletswyddau rhwng Gwynedd a GwE. Yn y lle cyntaf fe fydd yn rhoi tuag 4 diwrnod yr wythnos i GwE a gweddill ei amser i ddyletswyddau Gwynedd yn y cyfnod interim. Nodwyd nad yw hyd y penodiad interim yn glir ar hyn o bryd ond, pan ddaw Estyn yn eu holau, byddent angen sicrwydd bod trefniadau Arweinyddiaeth yn ei le.

Awgrymodd AT sgwrs anffurfiol ar ddiwedd y cyfarfod i drafod beth sydd yn gweithio ar hyn o bryd/beth sydd yn aneffeithiol/heriau/datrysiadau gan adrodd yn ôl i'r cyfarfod mis Ionawr gan ymateb i'r adolygiad arfaethedig.

Diolchwyd I AT am gamu i mewn i'r rôl fel Rheolwr Interim Cyfarwyddwr Gwe.

**Penderfynwyd: (a) Llythyru Huw Foster Evans i ddiolch iddo am ei waith.**
**(b) Derbyn yr adroddiad**
**(c) Derbyn y trefniadau interim gan geisio symud ymlaen yn fuan yn y flwyddyn newydd gyda'r penodiad – nodwyd y byddai cael amserlen neu gamau gweithredu ar gyfer y cyfarfod nesaf yn ddefnyddiol.**

7. **ARGYMHELLION ESTYN/DIWEDDARIAD AR Y CYNLLUN BUSNES**

Atgoffodd AT y Cyd-bwyllgor, yn dilyn cyhoeddi argymhellion Estyn roedd 6 argymhelliad. Cadarnhawyd bod cynnydd 'boddhaol' yn cael ei wneud yn erbyn y 6, ond 'roedd AT yn hyderus y bydd y cynnydd yn symud i fod yn y category 'cryf' fel y bydd y flwyddyn yn mynd rhagddi. Trafodwyd nifer o faterion o'r adroddiad gan ystyried yn ofalus beth, ar wahân i sefydlogrwydd, sydd yn bwysig ar gyfer dyfodol GwE, gan fo rôl GwE wedi datblygu a newid erbyn hyn.

Cafwyd trafodaeth ar faterion penodol fel a ganlyn

(a) Pa mor fanwl sydd angen tracio? Beth yw targed? Ydy pob un o'r rhan-ddeiliaid yn gosod targedau yn yr run modd? Cadarnhawyd bod gosod targedau yn faes cymhleth ac os oes rôl I Lywodraethwyr yn hyn, mae peth ffordd i fynd - cadarnhawyd mai GwE sydd yn gyfrifol am y Llywodraethwyr yn y rôl hon. Bydd canlyniadau CA4 yn cael eu gwirio yn allanol ond ni fydd modd cymharu canlyniadau arholiadau Haf 2017 gyda chanlyniadau blynyddoedd blaenorol ond dim cymhariaeth rhyng-sirol.
(b) Rhwydweithiau Rhanbarthol - cwestiynwyd a yw Bwrdd Rheoli GwE wedi edrych ar yr ochr 'fusnes' gan leihau rhwydweithiau lawr I 2.

(c) Ansawdd cynllunio – a oes angen ystyried craffu ar y rhain yn lleol?
(ch) Cynllun Gwerth am Arian - o ran y cynllun cyllidol tymor canolig, mae angen sefydlu pa arian sydd yn cael ei ystyried gan gofio bo arian Her Cymru mewn rhanbarthau eraill. Awgrymwyd oni fyddai yn fwy effeithiol ystyried rhoi yr arian i gyd ar y Bwrdd er mwyn cael gwerth am arian. Nododd GJ bod angen bod yn ymwybodol o wariant y pen fesul consortiwm fel bo modd gwneud cymariaethau rhwng consortia a'i gilydd. Nododd AR bwysigrwydd bod yn ymwybodol sut mae pob rhanbarth yn cael ei ariannu.
(d) Nododd PH, er mwyn codi safonau arbenigedd, ansawdd pobl a sgiliau yn y dosbarth sydd eu hangen, gyda'r nod o weithio tuag at y sefyllfa ble gall ysgolion bychain gynnal eu hunain, er bo rhai ysgolion yn hynod fach. Nodwyd bod angen gweithio gyda'r prifysgolion sydd yn hyfforddi gan drafod y meysydd arbennig ble mae anawsterau recriwtio yn bodoli.

**Penderfynwyd: (a) Rhoi ystyriaeth i gomisiynu darn o waith i geisio cael cysondeb dros y 6 rhanbarth a'r effaith mae gwaith GwE wedi ei gael ar y Sefydliadau.**
**(b) Derbyn yr adroddiad**

**8. DIWEDDARIAD AR SAFONAU CA4**

Gosodwyd y cyd-destun gan AJ a thynnwyd sylw at y ffaith fod disgyblion EOTAS wedi eu cynnwys yn y ffigyrau am y tro cyntaf. Nodwyd fod Cadeirydd y Bwrdd Rheoli wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurdeb o ba ddysgwyr EOTAS sydd wedi eu cynnwys yn y data. Cyfeiriwyd at y tabl crynodeb o safleoedd yr Awdurdodau yn y dangosyddion perfformiad allweddol yng nghyfnod allweddol 4, a hefyd at berfformiad pob ysgol yn erbyn y deilliant disgwyliedig sydd wedi'i fodelu ar gyfer y Trothwy Lefel 2 sy'n cynnwys Mathemateg ac Iaith. O edrych ar y graffiau cadarnhawyd nad yw perfformiad ysgolion uwchradd ar draws y rhanbarth yn ddigon da.

Nodwyd bod 80% o adnoddau GwE yn cael eu rhoi i'r cynradd a 20% i'r uwchradd a chwestiynwyd oni ddylai y rhaniad gael ei wneud ar sail niferoedd plant yn y cynradd/uwchradd. Cwestiynwyd onid oedd angen ail-edrych ar falans yr adnoddau, a thargedu mwy i'r uwchradd. Cafwyd cefnogaeth y Cyd-bwyllgor hefyd i edrych ar fodel newydd o weithredu gyda'r uwchradd.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**
**(b) Cymeradwyo i'r Bwrdd Rheoli drafod ymhellach a chyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor.**
**(c) Ystyried model uwchradd diwygiedig ar gyfer y cyfarfod nesaf gan ystyried a yw grantiau yn cael eu defnyddiol yn y ffordd fwyaf effeithiol**

**9. DIWEDDARIAD RHAGLENNI DATBLYGOL**

Derbyniwyd crynodeb o nod rhaglenni datblygu Arweinyddiaeth GwE ynghyd a manylion rhaglenni penodol a ddatblygir gan ysgolion unigol ac ati. Cadarnhawyd bod unigolion yn cael eu targedu ar gyfer rhai rhaglenni penodol. Nodwyd y byddai yn ddefnyddiol gwella y ffordd y mae effaith yn cael ei fesur yn dilyn mynychu y rhaglenni. Pwysleisiwyd bod y meddylfryd hunan wella yn cael ei ddatblygu yn y rhaglenni hyn, a bod ymarferwyr effeithiol o ysgolion yn cynorthwyo gyda'r darparu. Nodwyd bod angen ystyried amser cychwyn a gorffen y rhaglenni ynghyd a lleoliad, a bod angen ystyried darpariaeth ar gyfer athrawon sydd ar y rhestr lanw.
Cwestiynwyd a oes unrhyw hyfforddiant ar gyfer Llywodraethwyr. Cadarnhaodd AT y bydd Cynllun Datblygu Ysgol o bosib yn edrych ar anghenion llywodraethwyr.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn, nodi a chymeradwyo'r wybodaeth yn yr adroddiad**

**10. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB 2016/17**

Cafwyd diweddariad gan HO o'r adolygiad ariannol diweddaraf cyllideb GwE am y flwyddyn 2016/17 ynghyd a chyfeiriad at yr amrywiadau ariannol sylweddol.

**Penderfynwyd : (a) Derbyn, nodi a chymeradwyo'r wybodaeth yn yr adroddiad**

**11. FFRAMWAITH PERFFORMIAD ADDYSG (GRANT GWELLA ADDYSG)**

Nododd AT ei bod yn bwysig bod unrhyw gynnydd yn unol â thargedau cenedlaethol. Cadarnhaodd MG o ran y Grant Gwella Addysg y bydd angen trafodaeth maes o law ynglŷn â beth i'w gynnwys yn yr adroddiad flwyddyn nesaf yn dilyn y treialu flwyddyn yma.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn, nodi a chymeradwyo'r wybodaeth yn yr adroddiad**

Dechreuodd y cyfarfod am 9.30 a.m. a daeth i ben am 11.45 a.m.

**CADEIRYDD**

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**01/02/2017**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Cyfarwyddwr Arweiniol a Rheolwr Gyfarwyddwr |
| **Pwnc:** | Adolygiad o Drefniadau Gweithredu GwE |

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

Rhoi diweddariad i'r Cyd-bwyllgor ar ganfyddiadau'r adolygiad a gomisiynwyd yn y cyfarfod ar 25 Tachwedd 2016 a chymeradwyo'r argymhellion gweithredu.

## 2.0 Cefndir

2.1 Bu i ymadawiad y Rheolwr Gyfarwyddwr blaenorol gynnig cyfle nid yn unig i ni adolygu effeithiolrwydd a chysondeb yr arfer bresennol o ran gwella ysgolion yn y rhanbarth, ond hefyd i ymchwilio i ba mor addas i bwrpas oedd trefniadau arwain a llywodraethu. Mae'n amlwg i'r Bwrdd Rheoli a Phrif Weithredwyr y rhanbarth fod cyfleoedd yma i rolau ac atebolrwydd mewn perthynas â gwella ysgolion a gwasanaethau addysg ehangach ar draws y rhanbarth yn well.

## 3.0 Materion i'w hystyried

3.1 Ym mis Tachwedd fe wnaethom ail-ymrwymo i gyflwyno gwelliannau yn ein hysgolion a mynd i'r afael ag argymhellion Estyn a SAC yn fanwl a chyflym. Fe wnaethom ymrwymo hefyd i adolygu'r arfer bresennol o ran gwella ysgolion, gyda ffocws penodol ar y cyfnod uwchradd, gan adnabod y meysydd allweddol yn ein harfer y mae angen mynd i'r afael â nhw fel rhanbarth. Mae adroddiad yr adolygiad wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

3.2 Mae'r adroddiad adolygu'n amlinellu pwysigrwydd symud tuag at fodel gweithredu diwygiedig er mwyn mynd i'r afael â gwendidau mewn darpariaeth a deilliannau yn y sector uwchradd. Nodir yr argymhellion mewn perthynas â hyn yn Atodiad 2.

3.3 Mae canfyddiadau'r adolygiad hefyd yn galluogi'r Cyd-bwyllgor i bwyso a mesur gan fynd ati i ailddiffinio cwmpas a chyfrifoldebau swydd y Rheolwr Gyfarwyddwr wrth i ni ddechrau ar y broses recriwtio. Mae adroddiad ar wahân wedi'i gynnwys yn y rhaglen hon sy'n amlinellu'r broses benodi.

## 4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gefnogi:
- argymhellion yr adolygiad (yn Atodiad 1); ac
- y newidiadau i drefniadau gweithredu (Atodiad 2).

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Gellir cyflawni'r cynigion a wneir yn Atodiadau 1 a 2 yn defnyddio adnoddau presennol.

**6.0 Effaith o ran Cydraddoldeb**

6.1 Bydd unrhyw newidiadau i'r strwythur neu i fanylebau person yn amodol ar effaith ar gydraddoldeb a gwaith cydymffurfio.

**7.0 Goblygiadau ar Bersonél**

7.1 Bydd unrhyw waith cynllunio'r gweithlu neu dasgau newid strwythur yn amodol ar ymgynghori â'r gweithlu a'r protocol ar gyfer gwneud penderfyniadau.

**8.0 Ymgynghori a wnaed**

8.1 Ymgynghorwyd yn anffurfiol â Bwrdd Rheoli GwE, Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol a Chadeirydd y Cyd-bwyllgor.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**Swyddog Monitro:**

Mae'r bwriad i adrodd ar adolygu trefniadau a llywodraethu'r bartneriaeth wedi ei amlygui I'r Cyd Bwyllgor eisioes. Mae ystod o gamau yn yr argymhellaid a disgwylir y bydd agweddau yn dod gerbron y Cyd Bwyllor am sylw pellach. Gall rhai materion o'u datblygu olygu angen am gytundeb y cynghorau unigol ond disgwylir y bydd y llwybrau yma yn cael eu hamlygu wrth i'r adolygiad symud ymlaen.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Mae awdur yr adroddiad wedi mynegi na fydd unrhyw oblygiadau ariannol i'r argymhellion hyn. Bydd y Cyd-bwyllgor hefyd yn dymuno gweld llywodraethu'n gwella, drwy sefydlu llinellau atebolrwydd clir rhwng y Rheolwr Gyfarwyddwr, y 6 Pennaeth Addysg a'r Cyd-bwyllgor. Dylai hyn arwain at well safonau a gwerth am arian i GwE.

**Atodiad 1**

**Adolygiad GwE**

## 1.0 Y Cyd-destun

Mae cyd-destun yr adolygiad hwn fel a ganlyn:
‘Mae ymadawiad y Rheolwr Gyfarwyddwr presennol yn rhoi cyfle nid yn unig i ni adolygu effeithiolrwydd a chysondeb yr arfer bresennol o ran gwella ysgolion yn y rhanbarth, ond hefyd i ymchwilio i ba mor addas i bwrpas yw trefniadau arwain a llywodraethu. Mae’n amlwg i’r Bwrdd Rheoli a Phrif Weithredwyr y rhanbarth fod cyfleoedd yma i ddiffinio rolau ac atebolrwydd mewn perthynas â gwella ysgolion a gwasanaethau addysg ehangach ar draws y rhanbarth yn well.
Mae angen i drefniadau dros dro fod yn gadarn a chanolbwyntio ar gyflawni’r cynllun busnes rhanbarthol (yn cynnwys y CGOA), gan gyrraedd a rhagori ar y deilliannau a nodir ynddo.
Nododd y Bwrdd Rheoli'r argymhellion canlynol:

1. Dylid cynnal yr adolygiad yn syth a’i gwblhau ar fyrder. Bydd yr adolygiad yn rhoi darlun i’r Cyd-bwyllgor o gryfderau presennol a’r meysydd y mae angen eu gwella neu eu newid.
2. Bydd yr adolygiad, ynghyd â’r drafodaeth ranbarthol ar drefniadau cydweithio o fewn gwasanaethau cyhoeddus, yn cynorthwyo’r Cyd-bwyllgor i siapio rôl y RhG a’r Llywodraethu Addysg Rhanbarthol ar gyfer y dyfodol.
3. Yn amodol ar ganlyniadau’r trafodaethau uchod, dylid rhoi unrhyw drefniadau gweithredu neu benodiadau diwygiedig pellach ar waith cyn gynted â phosib. Byddai oedi’n golygu peryglu deilliannau arolygiad GwE yn Hydref 2017.

## 2.0 Prif Ganfyddiadau

Mae cefnogaeth gyffredinol ar draws Gogledd Cymru gan yr holl randdeiliaid i lwyddiant GwE fel sefydliad. Mae llawer yn gweld cyfle ar hyn o bryd i adolygu'r pwrpas craidd a diffinio gweledigaeth tymor canolig a thymor hir ar gyfer yr hyn y dylai GwE ei gyflawni ar gyfer ein hysgolion. Mae angen gwneud hyn mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol, yn unigol neu fel grŵp, gan fod gormod o anghysondeb yn ansawdd y gefnogaeth a gynigir yn y gweithgareddau hynny nad ydynt wedi eu cynnwys yng nghylch gwaith GwE. Mae hyn yn atal gwaith GwE rhag cyflawni ei lawn botensial mewn rhai ardaloedd yng Ngogledd Cymru.

Mae cyfeiriad strategol GwE yn aneglur. Nid yw'r cynllun busnes a'r strwythur sefydliadol cyfredol yn diwallu'r her bresennol i fynd i'r afael â meysydd blaenoriaeth.

Mae'r strwythur atebolrwydd presennol ar lefel swyddogion yn aneglur. Mae diffyg eglurder a ffocws i'r rolau uwch o fewn GwE.

Mae gormod o anghysondeb hefyd ym mherfformiad awdurdodau unigol. Nid yw'r mwyafrif o Awdurdodau Lleol yn perfformio'n ddigon agos at eu safle PYD disgwyliedig yn gyson ar draws y cyfnodau allweddol o'u cymharu ag Awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Nid yw GwE wedi canolbwyntio'n ddigon cyson na chadarn ar godi safonau. Nid yw GwE ychwaith wedi eu dal yn ddigon atebol am godi safonau.

Nid yw safonau yng Nghyfnod Allweddol 4 yn ddigon da ar draws ystod o ddangosyddion allweddol yn y rhanbarth.

Mae asesiadau athrawon yn anghyson ar draws ysgolion ac Awdurdodau Lleol.

Nid oes strategaeth ranbarthol glir ar gyfer gweithio gyda'r Sector Ysgolion Arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion. Nid yw'r cysylltiadau rhwng GwE a gwasanaethau'r Awdurdodau Lleol ar gyfer ADY a Chynhwysiant wedi datblygu'n ddigonol, yn enwedig mewn perthynas â chodi safonau a sicrhau darpariaeth briodol i ddysgwyr sy'n agored i niwed.

Mae cynnydd yn erbyn argymhellion arolygiad Estyn wedi bod yn araf, ac nid yw'r cynnydd wedi cael ei fonitro'n ddigonol.

Mae'r Bwrdd Rheoli wedi cyfarfod yn rheolaidd i drafod ystod o faterion, yn bennaf yn ymwneud â systemau gweithredol a'r defnydd gorau o'r gyllideb. Cyfyngedig fu'r trafodaethau i ganfod datrysiadau ar gyfer codi safonau ar lefel ysgolion, yr Awdurdodau Lleol a'r Consortiwm.

## 3.0 Perfformiad

**Safleoedd PYD Awdurdodau Lleol 2016**

| | | |
|---|---|---|
| Ynys Môn = 10 | Conwy = 8 | Sir y Fflint = 6 |
| Gwynedd = 4 | Sir Ddinbych = 14 | Wrecsam = 9 |

| Ynys Môn | KS2 (CSI) | Ranking | KS3 (CSI) | Ranking | KS4 (L2+) | Ranking |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2014 | 87.8 | 7 | 83.6 | 9 | 53.8 | 14 |
| 2015 | 91.8 | 3 | 84.5 | 9 | 56.9 | 12 |
| 2016 | 89.4 | 9 | 87.6 | 7 | *58.5 (59.3) | 14 |

| Gwynedd | KS2 (CSI) | Ranking | KS3 (CSI) | Ranking | KS4 (L2+) | Ranking |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2014 | 86 | 14 | 89.1 | 1 | 61.1 | 5 |
| 2015 | 89.5 | 6 | 91.3 | 1 | 63.3 | 5 |
| 2016 | 89.8 | 7 | 92 | 2 | *65.9 (69.0) | 4 |


| Conwy | KS2 (CSI) | Ranking | KS3 (CSI) | Ranking | KS4 (L2+) | Ranking |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2014 | 84.3 | 17 | 83.7 | 8 | 55.5 | 11 |
| 2015 | 85.8 | 19 | 87.2 | 6 | 54.2 | 18 |
| 2016 | 86.8 | 20 | 87.3 | 9 | *55.9 (56.0) | 17 |

| Denbighshire | KS2 (CSI) | Ranking | KS3 (CSI) | Ranking | KS4 (L2+) | Ranking |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2014 | 86.6 | 10 | 83.2 | 10 | 55.6 | 10 |
| 2015 | 87.9 | 12 | 84.3 | 12 | 56.1 | 14 |
| 2016 | 88.6 | 14 | 86.4 | 12 | *58.6 (60.9) | 13 |

| Flintshire | KS2 (CSI) | Ranking | KS3 (CSI) | Ranking | KS4 (L2+) | Ranking |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2014 | 86.1 | 13 | 84.3 | 5 | 61.9 | 3 |
| 2015 | 87.9 | 11 | 87.1 | 7 | 60.6 | 8 |
| 2016 | 90.1 | 5 | 88.4 | 6 | *61.2 (61.7) | 10 |

| Wrexham | KS2 (CSI) | Ranking | KS3 (CSI) | Ranking | KS4 (L2+) | Ranking |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2014 | 84.2 | 19 | 78.4 | 16 | 51 | 18 |
| 2015 | 87.7 | 14 | 80.9 | 19 | 52.1 | 20 |
| 2016 | 87.7 | 18 | 84.3 | 16 | *55.3 (55.4) | 18 |

Nid yw safonau yng Nghyfnod Allweddol 4 yn ddigon da ar draws y rhanbarth ar draws ystod o ddangosyddion allweddol. Mae gormod o ysgolion uwchradd yn perfformio islaw'r lefel ddisgwyliedig. Mae cynnydd wedi bod yn araf o'i gymharu ag ysgolion tebyg ar draws Cymru.




| | 2014 | | | | | 2015 | | | | | 2016 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | L2+ | L1 | L2 | CPS | 5A*-A | L2+ | L1 | L2 | CPS | 5A*-A | L2+ | L1 | L2 | CPS | 5A*-A |
| **Anglesey (10)** | 14 | 6 | 9 | 3 | 10 | 12 | 8 | 16 | 9 | 13 | 14 | 5 | 15 | 11 | 10 |
| **Gwynedd (4)** | 5 | 1 | 4 | 1 | 2 | 5 | 1 | 6 | 1 | 3 | 4 | 1 | 9 | 4 | 8 |
| **Conwy (8)** | 11 | 8 | 8 | 11 | 8 | 18 | 14 | 14 | 17 | 16 | 17 | 17 | 16 | 17 | 19 |
| **Denbighshire (14)** | 10 | 11 | 2 | 5 | 9 | 14 | 17 | 10 | 11 | 8 | 13 | 20 | 14 | 16 | 14 |
| **Flintshire (6)** | 3 | 14 | 15 | 13 | 19 | 8 | 18 | 15 | 15 | 15 | 10 | 13 | 17 | 15 | 12 |
| **Wrexham (9)** | 18 | 21 | 21 | 20 | 20 | 20 | 20 | 22 | 21 | 20 | 18 | 19 | 21 | 18 | 20 |

## 4.0 Arolygiad

Yn dilyn arolygiad Estyn o'r gwasanaeth yn nhymor y gwanwyn 2016, barnwyd bod pump o'r dangosyddion allweddol yn ddigonol, a gwerth am arian yn anfoddhaol. Mae cynnydd yn erbyn yr argymhellion hyn wedi bod yn araf, ac nid yw cynnydd wedi cael ei fonitro'n ddigonol.

## 5.0 Arweinyddiaeth a Darpariaeth

Dros y tair blynedd diwethaf mae perthynas GwE gydag ysgolion wedi gwella wrth i'r sefydliad sicrhau gwell cydbwysedd rhwng yr angen i gefnogi a herio ysgolion. Mae'r her a'r gefnogaeth i ysgolion cynradd yn gyffredinol dda, ac mae mynediad i raglenni hyfforddi a datblygu wedi gwella ac yn fwy eglur bellach.

Yn gyffredinol, mae'r sector cynradd yn mynd o nerth i nerth o ganlyniad i ddau brif ffactor:

- Mae cydbwysedd 80:20 y Model Cenedlaethol a weithredir gan GwE yn sylweddol o blaid y sector cynradd.
- Mae cryn dipyn mwy o brofiad a hanes o lwyddiant ar lefel uwch arweinyddiaeth mewn ysgolion cynradd ymysg aelodau'r tîm.

Mae proffil arolygu Estyn yn gyffredinol dda, yn enwedig yn y sector cynradd.

Fodd bynnag, mae'r darlun yn wahanol yn y sector uwchradd. Oherwydd y model cymhwysedd 80:20 sy'n weithredol ar hyn o bryd, a'r anawsterau wrth recriwtio swyddogion llawn amser o ansawdd, mae'r diffyg mynediad at Ymgynghorwyr Her uwchradd effeithiol yn parhau. Mae hyn yn arbennig o bryderus mewn meysydd blaenoriaeth megis arweinyddiaeth ar wahanol lefelau, Mathemateg a Saesneg. Mae'r diffyg capasiti yn y sector uwchradd yn rhwystro gallu GwE i gael effaith yn syth.

Ar hyn o bryd, mae Ymgynghorwyr Her yn teimlo fod y model gweithredu presennol yn cyfyngu eu rolau'n ormodol. Cysegrir gormod o'u hamser i rôl gyffredinol yr ymgynghorydd her wrth iddynt weithio'n bennaf ar gategoreiddio ysgolion. O ganlyniad, nid yw Ymgynghorwyr Her yn cynnig arweiniad strategol ar faterion addysgo, rhywbeth a fyddai o fudd wrth gyflawni blaenoriaethau'r Consortiwm a'r Awdurdodau Lleol unigol. O'r herwydd, nid ydynt yn cael eu datblygu'n ddigonol, yn unigol nac ar y cyd, ac ni wneir y defnydd gorau o'u harbenigeddau i arwain ar faterion addysgol ar draws yr hybiau a'r rhanbarth.

Mae gwybodaeth drylwyr o arweinyddiaeth mewn ysgolion wedi datblygu'n dda dros amser. Y Broses Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion sy'n bennaf gyfrifol am hyn. Fodd bynnag, teimlir fwyfwy bod y broses yn or-llafurus, ac y byddai'n well treulio'r amser hwn yn cyflawni gwelliannau yn hytrach na dilysu gwybodaeth y mae'r ysgolion a GwE eisoes yn ymwybodol ohoni. Mae rôl GwE wrth benodi i swyddi uwch mewn ysgolion yn aneglur. Dylid egluro rôl GwE mewn partneriaeth â'r ALl er mwyn sicrhau fod y penodiadau'n effeithiol. Ar hyn o bryd, nid oes strategaeth ranbarthol gydlynol ar waith ar gyfer datblygu perthnasau gwaith gyda Chyrff Llywodraethu a Byrddau Rheoli.

Nid oes strategaeth ranbarthol glir ar gyfer gweithio gyda'r Sector Ysgolion Arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion. Nid yw'r cysylltiadau rhwng GwE a gwasanaethau'r Awdurdodau Lleol ar gyfer ADY a Chynhwysiant wedi datblygu'n ddigonol, yn enwedig mewn perthynas â chodi safonau a sicrhau darpariaeth briodol i ddysgwyr sy'n agored i niwed. Byddai cyflwyno amryw ddeddfwriaethau newydd yn mynnu cydweithio agosach a dull rhanbarthol mwy cyson yn y maes hwn.

Yn gyffredinol, mae perthynas waith dda yn bodoli rhwng holl arweinwyr yr hybiau a'r Awdurdodau Lleol unigol. Mae'r model Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth a dirprwy yn gyffredinol effeithiol ac yn cynnig cydbwysedd da ym mhob hwb. Bellach, mae llif gwell o ran cyfnewid gwybodaeth, ac yn yr achosion gorau ceir dealltwriaeth eglur o rolau'r naill a'r llall wrth yrru'r agenda gwella. Gall cyfarfodydd ar gyfer dod o hyd i'r datrysiad gorau fod yn heriol, ond mae cadernid y ddeialog a chydberchnogaeth o'r agenda gwella yn sicrhau llwyddiant yn yr enghreifftiau gorau.

Mae enghreifftiau o arfer dda yn bodoli ym mhob hwb, ond ni chaiff yr arfer hon ei rhannu'n effeithiol ar draws y Rhanbarth. O'r herwydd, mae gormod o amrywioldeb yn yr hyn y gall GwE ei gynnig i ysgolion, yn dibynnu ar eu lleoliad daearyddol a sgiliau sylfaenol staff. Mae'r Bwrdd/Rhwydwaith Sicrhau Ansawdd Rhanbarthol yn dechrau sicrhau cysondeb rhanbarthol i'r arfer ym mhob hwb unigol drwy adnabod a rhannu arfer dda ar draws y Rhanbarth.

Mae cynlluniau unigol yr Awdurdodau Lleol, a gyfeiriwyd atynt yn flaenorol fel Atodiadau, wedi gwella. Nodir cryn dipyn mwy o fanylion ynghylch y broses o wella'r meysydd a nodwyd ar y cyd, hyd yn oed ar lefel ysgolion unigol. Mae hyn wedi cryfhau'r ffocws mewn cyfarfodydd monitro ac wedi sicrhau atebolrwydd cryfach am gyflawni ymysg ymgynghorwyr her unigol. Fodd bynnag, mae angen gwaith pellach ar y broses fonitro er mwyn sicrhau dull cyson ar draws y Rhanbarth.

Mae'r dull craffu wedi aeddfedu ar draws y Rhanbarth. Mae gan aelodau craffu lleol well dealltwriaeth o bwrpas ac amcanion GwE. Yn yr enghreifftiau gorau mae aelodau'r pwyllgorau craffu'n ymweld ag ysgolion i ganfod eu barnau am ba mor dda yw'r gefnogaeth a'r her a gynigir gan GwE i ysgolion. Maent yna wedi adrodd ar eu canfyddiadau yn y pwyllgor a chynnal cyfarfod tair-ochrog gydag arweinydd hwb GwE a swyddogion ALl er mwyn nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu. Yn dilyn hyn, bydd gwaith pellach yn cael ei gyflawni wrth i aelodau gysgodi ymgynghorwyr her GwE yn eu swyddogaethau amrywiol i ddyfnhau eu dealltwriaeth ymhellach. Mae dealltwriaeth aelodau craffu o safonau mewn ysgolion ac o ddarpariaeth GwE yn eu hysgolion wedi datblygu o ganlyniad i adroddiadau manwl gan Uwch Ymgynghorwyr Her a Chefnogaeth. Mae presenoldeb yr Uwch Ymgynghorwyr yn y cyfarfodydd hyn wedi bod o gymorth wrth fynd i'r afael â chanfyddiadau ac wrth ddatrys unrhyw faterion a nodir gan aelodau, ac wedi helpu i reoli disgwyliadau lleol drwy egluro eu rôl yn fanwl.

Mae diffyg eglurder a ffocws i'r rolau uwch. Mae cyfeiriad strategol GwE yn aneglur. Nid yw'r cynllun busnes cyfredol yn diwallu'r her bresennol i fynd i'r afael â meysydd blaenoriaeth. Mae'r prosesau ar gyfer rheoli perfformiad y gwasanaeth a monitro'r gyllideb weithredol yn hynod annatblygedig, ac nid ydynt yn dwyn unigolion, deiliaid blaenoriaethau'r gwasanaeth na'r Awdurdodau Lleol i gyfrif am eu perfformiad. O ganlyniad, nid oes dull o adnabod gwerth am arian.

Mae'r strwythur atebolrwydd presennol ar lefel swyddogion yn aneglur. Mae diffyg eglurder a ffocws i'r rolau uwch o fewn GwE. Mae'n aneglur pa swyddog sydd â'r rôl arweiniol mewn perthynas ag atebolrwydd i'r Cyd-bwyllgor. Mae gan y Prif Weithredwr Arweiniol, y Cyfarwyddwr Arweiniol a'r Rheolwr Gyfarwyddwr eu rolau, ond nid ydynt wedi eu gwahaniaethu ddigon o ran gweithredu o ddydd i ddydd. Mae hyn yn arwain at nifer o faterion, yn cynnwys anawsterau wrth sicrhau un pwynt cyswllt gyda Llywodraeth Cymru a diffyg eglurder o ran sut y gall Cyfarwyddwyr eraill chwarae rhan weithredol wrth siapio a datblygu'r cyfeiriad rhwng cyfarfodydd.

Nid yw'r cysylltiadau rhwng blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn eglur. Mae angen llawer o waith i sicrhau bod datblygiadau cenedlaethol yn y dyfodol yn cefnogi blaenoriaethau lleol. Mae angen sicrhau darlun mwy eglur hefyd o daith pob ysgol unigol wrth baratoi ar gyfer heriau Cymwys am Oes.

Mewn Cyfarfod Bwrdd diweddar yng Nghaerdydd, awgrymodd Cyfarwyddwr Addysg Llywodraeth Cymru ei fod wedi trafod yr angen i adolygu'r model cenedlaethol ymhellach gyda swyddogion CLlLC. Byddai'r adolygiad newydd hwn yn cynnwys edrych ar ymestyn y Model Cenedlaethol i gynnwys lles a chydraddoldeb. Gallai hyn gynnwys elfennau pellach o'r gwasanaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant sy'n bodoli ar hyn o bryd yn yr Awdurdodau Lleol.

## 6.0 Swydd y Rheolwr Gyfarwyddwr

Ers sefydlu GwE yn 2013, bu cynnydd sylweddol yn y disgwyliadau ynghlwm â rôl y Rheolwr Gyfarwyddwr. Fel y nodir uchod, mae adolygiad pellach o'r Model Cenedlaethol ar y gweill, ac mae'n amlwg fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynyddu ystod y cyfrifoldebau ymhellach fyth i gynnwys Lles, Cydraddoldeb ac o bosib Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Yn ogystal, bu gostyngiad sylweddol yn ystod yr un cyfnod yng ngweithlu addysg yr Awdurdodau Lleol. O ganlyniad, mae diffyg eglurder mewn perthynas â rolau'r Consortiwm a'r ALl. Mae rhai Awdurdodau Lleol wedi ei chael hi'n anodd gweithio gyda GwE ar rai materion megis mynd i'r afael â staff sy'n tanberfformio mewn ysgolion. Yn ogystal, gan nad yw safonau yn y dangosyddion allweddol yng Nghyfnod Allweddol 4 yn ddigon da ym mhedwar o'r chwech ALl, a chyda'r diffyg

capasiti, mae perygl difrifol na fydd rhai o'r Awdurdodau Lleol hyn mewn sefyllfa gref i wynebu arolygiad pan fydd Estyn yn dechrau ar y cylch nesaf o arolygiadau ALl.

Wrth hysbysebu swydd y RhG, mae gan y Cyd-bwyllgor opsiynau i'w hystyried:

- Hysbysebu swydd sy'n cyfateb i'r swydd flaenorol, gan gymryd y cynnydd mewn disgwyliadau ers 2013 i ystyriaeth;
- Hysbysebu swydd sy'n cynnwys y swyddogaethau presennol yn ogystal â'r angen i allu rheoli gwasanaethau ychwanegol megis elfennau o ADY a chynhwysiant;
- Hysbysebu swydd sy'n rheoli gwasanaethau Addysg yn eu cyfanrwydd ar sail Consortiwm.

O ystyried y sefyllfa bresennol mewn perthynas â safonau ar draws y rhanbarth, gan gadw mewn cof y sefyllfa o ran safonau a gwelliant yn erbyn Cynllun Ôl-arolygiad Estyn a diddordeb Llywodraeth Cymru yn ymrwymiad y rhanbarth i wasanaethau gwella ysgolion rhanbarthol, awgrymir y dylid hysbysebu swydd ar sail gyfatebol [gan gynnwys y cyfrifoldebau ychwanegol a gyflawnir ers 2013]. Yn y cyd-destun hwn, awgrymir hefyd y dylid cadw'r tâl ar y lefel bresennol [er mwyn cadw'r cysondeb cyffredinol gyda lefel y tâl yn y consortia eraill].

Dylid adolygu unrhyw gynnydd pellach yn y cyfrifoldebau yn dilyn adolygiad pellach o'r Model Cenedlaethol fel y bo'n briodol.

Mae angen sicrhau eglurder hefyd ynghylch pwy yw'r swyddog sy'n atebol am y gwasanaethau gwella ysgolion a ddarperir gan GwE ar draws y rhanbarth. Bydd hyn yn cynnwys adolygu a mireinio'r trefniadau llywodraethu presennol.

**Atodiad 2**

**Argymhellion**

1. Penodi Rheolwr Gyfarwyddwr ar frys ar ôl rhoi ystyriaeth ddyledus i'r opsiynau a amlinellir yn yr adroddiad hwn;
2. Newid y model gweithredu presennol ar frys i sicrhau bod ffocws clir ar wella perfformiad mewn ysgolion uwchradd, yn arbennig yng Nghyfnod Allweddol 4;
3. Dylai Awdurdodau Lleol unigol adolygu eu capasiti a'u gallu presennol i weithio mewn partneriaeth â GwE er mwyn gwella perfformiad;
4. Adolygu'r strwythurau Llywodraethu fel rhan o'r adolygiad nesaf o'r Model Cenedlaethol;
5. Gweithredu model Rheoli Perfformiad ar gyfer y gwasanaeth ac ar gyfer unigolion, er mwyn helpu i fynd i'r afael ag argymhellion Estyn;
6. Datblygu model arweinyddiaeth ddosranedig a fydd yn rhoi rolau arwain i fwy o staff a chyfleoedd iddynt ddatblygu eu sgiliau eu hunain;
7. Datblygu cyswllt clir rhwng blaenoriaethau Cenedlaethol a Lleol fel eu bod yn cydweddu yn hytrach na gwrthdaro;
8. Datblygu cysondeb ar draws y tri hwb er mwyn ceisio sicrhau darpariaeth gydradd ar draws y Rhanbarth;
9. Adolygu'r cynllun busnes er mwyn sicrhau bod pawb yn deall blaenoriaethau GwE;
10. Egluro rolau staff, yn arbennig uwch staff, er mwyn cyflawni blaenoriaethau; ac
11. Adolygu model cefnogi busnes gweithredol GwE.

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**01/02/2017**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Cyfarwyddwr Arweiniol |
| **Pwnc:** | Penodi Prif Swyddog / Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

Cytuno ar y broses ar gyfer penodi Prif Swyddog/Rheolwr Gyfarwyddwr GwE.

**2.0 Cefndir**

2.1 Bu i ymadawiad y Prif Swyddog/Rheolwr Gyfarwyddwr blaenorol gynnig cyfle i ni adolygu effeithiolrwydd a chysondeb yr arfer bresennol o ran gwella ysgolion yn y rhanbarth. Bydd canlyniadau'r adolygiad yn helpu i lywio'r broses o benodi olynydd. Mae'r Bwrdd Rheoli a Phrif Weithredwyr y rhanbarth yn argymell ein bod yn penodi ar sail barhaol cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

**3.0 Materion i'w hystyried**

3.1 Yn unol â threfniadau llywodraethu Cyd-bwyllgor GwE, cyfrifoldeb y Cyd-bwyllgor yw penodi'r Prif Swyddog / Rheolwr Gyfarwyddwr. Mae gan y Cyd-bwyllgor rôl allweddol wrth gymeradwyo'r fanyleb person a'r broses benodi ar gyfer arweinyddiaeth barhaol ar y Gwasanaeth ar y Cyd.

3.2 Mae'r Bwrdd Rheoli a Phrif Weithredwyr y rhanbarth yn argymell bod angen penodi Prif Swyddog parhaol sydd â'r profiad a'r medrau priodol, a hynny er mwyn cyflawni'r gwelliannau sydd eu hangen yn ein hysgolion a mynd i'r afael ag argymhellion Estyn a SAC yn gadarn a chyflym.

3.3 Yn unol â threfniadau llywodraethu Cyd-bwyllgor GwE, cyfrifoldeb y Cyd-bwyllgor yw penodi Prif Swyddog / Rheolwr Gyfarwyddwr y Gwasanaeth. Golyga hyn y bydd y Cyd-bwyllgor yn tynnu rhestr fer ffurfiol o ymgeiswyr ac yn penodi ar ôl hysbysebu'r swydd yn agored.

3.4 Argymhellir y dylai ymgeiswyr ar y rhestr fer gymryd rhan mewn Canolfan Asesu fel rhan o'r broses benodi. Bydd y ganolfan asesu undydd yn cynnwys cyfweliad proffesiynol gyda Bwrdd

Rheoli GwE, cyfweliad gyda rhanddeiliaid a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr sy'n Benaethiaid a llywodraethwyr, yn ogystal ag asesiadau priodol. Cyflwynir yr adborth o'r ganolfan asesu, y cyfweliad proffesiynol a'r cyfweliad gyda rhanddeiliaid i sylw'r Cyd-bwyllgor.

3.5 Bydd y cyfweliad terfynol ar ddiwrnod dau yn cynnwys panel penodi o aelodau etholedig y Cyd-bwyllgor. Bydd y cyfweliad panel yn dechrau gyda chyflwyniad gan yr ymgeisydd, cyn symud ymlaen i gwestiynau penodol fel rhan o'r broses benodi.

3.6 Bydd y Cyd-bwyllgor yn cyfarfod yn ffurfiol i cymeradwyo argymhelliad y panel ar gyfer y penodiad ar ddiwedd y broses ddethol.

3.7 Comisiynir hysbyseb y swydd yn dilyn penderfyniad y Cyd-bwyllgor i ddechrau ar y broses recriwtio. Bydd y Ganolfan Asesu, Cyfweliadau Panel, Cyfarfodydd Terfynol y Panel a Dilysu'r Penodiad yn digwydd yn fuan ym mis Mawrth.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Argymhellir bod y Cyd-bwyllgor yn cytuno a chefnogi'r broses o benodi Prif Swyddog / Rheolwr Gyfarwyddwr GwE.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Argymhellir bod y swydd yn cael ei hysbysebu ar sail ystod cyflog o rhwng £83,307 a £92,564 (o Ebrill 1$^{af}$ 2017), gydag atodiad y farchnad ychwanegol i'r ymgeisydd priodol yn rhoi uchafswm o £97,154. Mae hyn yn gynaliadwy o fewn cyllideb bresennol y gwasanaeth.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Bydd unrhyw newidiadau i'r strwythur neu i fanylebau person yn amodol ar effaith ar gydraddoldeb a gwaith cydymffurfio.

**7.0 Goblygiadau ar Bersonél**

7.1 Bydd unrhyw waith cynllunio'r gweithlu neu dasgau newid strwythur yn amodol ar ymgynghori â'r gweithlu a'r protocol ar gyfer gwneud penderfyniadau.

**8.0 Ymgynghori a wnaed**

8.1 Ymgynghorwyd yn anffurfiol â Bwrdd Rheoli GwE, Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol a Chadeirydd y Cyd-bwyllgor.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Mae’r adroddiad yn cynnig proses briodol ar gyfer penodi Prif Swyddog / Rheolwr Gyfarwyddwr ar gyfer y Gwasanaeth.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Cadarnhaf fod yr ystod cyflog arfaethedig, yn cynnwys atodiad y farchnad, yn gymesur â’r ystod cyflog presennol, ac felly nid oes oblygiadau ariannol pellach.

**Atodiad 1**

**Teitl y Swydd:** **Prif Swyddog / Rheolwr Gyfarwyddwr**

**Cyflog:** **£83,307 - £92,564 (hyd at £97,154 gydag atodiad y farchnad)**

**Lleoliad:** **Bae Colwyn, ac yn cynnwys teithio drwy Ogledd Cymru**

**Yn Atebol i:** **Bwrdd Rheoli a Chydbwyllgor GwE**

**Yn gyfrifol i:** **Cadeirydd y Bwrdd Rheoli**

**1. Pwrpas y Swydd**

Fel y Prif Swyddog:
- Cydweithio'n agos gyda'r holl randdeiliaid wrth gynllunio, datblygu, cyflawni, monitro a gwerthuso'r gwasanaethau gwella ysgolion rhanbarthol.
- Arwain a chyfarwyddo tîm GwE i ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion cydlynol ac o ansawdd.

Mae gwasanaethau gwella ysgolion o ansawdd yn effeithiol ac effeithlon, yn ymateb i amgylchiadau lleol, ac yn ein cynorthwyo i sicrhau cyfleoedd dysgu, deilliannau dysgu, lles a dilyniant o'r radd flaenaf i'n plant a'n pobl ifanc.

**2. Prif Ddyletswyddau**

Arwain a phennu cyfeiriad strategol agenda'r gwasanaeth.

a) Darparu cyfeiriad strategol a dehongli a datblygu polisïau, gan sicrhau bod y rhain yn cael eu cefnogi gan gynlluniau gwella a chynlluniau busnes realistig;

b) Datblygu diwylliant yn canolbwyntio ar y cwsmer ledled y sefydliad, a fydd yn arwain at ddarparu gwasanaethau o ansawdd da;

c) Arwain ar ddarparu cefnogaeth i Awdurdodau Lleol ac Ysgolion (ar y cyd ac ar wahân yn ôl y gofyn) mewn gweithgareddau Gwella Ysgolion;

d) Arwain ar weithredu blaenoriaethau'r Cynllun Addysg Cenedlaethol yn rhanbarthol;

e) Hyrwyddo cynlluniau, polisïau ac amcanion y Gwasanaeth, yn fewnol yn y sefydliad ac yn allanol, er mwyn sicrhau eglurdeb, ymrwymiad a dealltwriaeth;

Arwain ar bob agwedd o reoli perfformiad y gwasanaeth

f) Sicrhau bod perfformiad y gwasanaeth rhanbarthol yn cael ei fesur yn erbyn dangosyddion allweddol a thargedau, gan gyflawni'r amcanion a nodir;

g) Sicrhau bod y gwasanaeth yn defnyddio prosesau ar gyfer cynllunio ariannol tymor canolig, cynllunio'r gweithlu ac asesu gwerth am arian fel rhan o'i weithdrefnau cynllunio busnes;

h) Arwain ar ddatblygu a gweithredu holl agweddau'r Fframweithiau Cynllunio Busnes, Risg, Rheolaethol a Pherfformiad y Gwasanaeth;

i) Cyfathrebu a sicrhau ymrwymiad staff i nodau ac amcanion y Gwasanaeth ac i'r safonau disgwyliedig mewn perthynas ag ymddygiad a pherfformiad;

j) Sicrhau bod rheoli perfformiad a phrosesau datblygu ar gyfer unigolion, sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau a thargedau, ar waith.

Arwain ar reoli'r holl adnoddau o fewn y gwasanaeth

k) Arwain a chyfeirio'r tîm rhanbarthol wrth gefnogi Ysgolion ac Awdurdodau Lleol yn effeithiol mewn ystod o wasanaethau ar y cyd, yn cynnwys gwella ysgolion;

l) Bod yn gyfrifol am ddarparu canolfan arbenigedd mewn perthynas â Systemau Rheoli Gwybodaeth (SRhG) ac am reoli systemau dadansoddi a dehongli data;

m) Bod yn gyfrifol am ddarparu canolfan arbenigol ar gyfer materion yn ymwneud â Rheoli Addysg yn ogystal â Gwasanaeth Adnoddau Dynol Addysg er mwyn cynnig arbenigedd a chyngor;

n) Datblygu sgiliau pobl a sgiliau rheoli i sicrhau bod y Gwasanaeth yn gallu cyflawni ei amcanion strategol, ac y bydd yn parhau i wneud hynny;

o) Bod yn atebol am bob agwedd o reolaeth ariannol a chyllidebol ar gyfer y gwasanaethau;

p) Datblygu a sicrhau bod y Strategaeth Gweithlu'n adlewyrchu egwyddorion Cyfleoedd Cyfartal a datblygu staff;

q) Bod yn gyfrifol am weithredu ymarferion Iechyd a Diogelwch o ddydd i ddydd, gan rannu cyfrifoldeb cyffredinol am Iechyd a Diogelwch ar draws y gwasanaeth;

r) Arwain a chymryd rhan yn y broses o benodi, datblygu, monitro perfformiad, gwerthuso a diswyddo staff.

**3. Materion Ychwanegol**

Bydd angen i ddeiliad y swydd fod yn gyfrifol am wasanaethau ar gyfer y dyfodol sydd eto i'w diffinio. Golyga hynny y bydd y Swydd Ddisgrifiad yn cael ei adolygu yn ôl y gofyn i adlewyrchu cyfrifoldebau ychwanegol, ac o bosib yn cael ei ail-werthuso yn unol â'r cynllun gwerthuso swydd cytunedig sy'n gyfredol.

**4. Gweledigaeth/Cyd-destun**

Y weledigaeth yw datblygu'r gwasanaeth Gwella Ysgolion ar y cyd.
Bydd y Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella rhanbarthol yn atebol i'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru, ac yn cefnogi eu cyfrifoldebau statudol o ran dyletswyddau monitro; herio; darparu gwasanaeth cefnogi i ddatblygiad proffesiynol parhaus y cwricwlwm, a rheoli ysgolion.

Bydd, yn ogystal, yn darparu gwasanaethau y gall ysgolion ac awdurdodau lleol eu comisiynu, gan roi sylfaen ar gyfer gweithredu gwasanaethau addysg eraill ar sail ranbarthol.

Bydd y gwasanaeth yn cael ei seilio ar yr egwyddorion craidd o ddarparu strategaethau lleol a chenedlaethol i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog mewn cymunedau addysg ledled gogledd Cymru.

**5. Cysylltiadau**

Mewnol

- Byrddau Rheoli a Phrif Weithredwyr
- Arweinwyr Awdurdodau Lleol, Aelodau Etholedig ac Aelodau Byrddau Craffu
- Penaethiaid, Llywodraethwyr a thimau staff ysgolion
- Cydweithwyr staff GwE
- Swyddogion Undebau Llafur

Allanol

- Aelodau'r Senedd Ewropeaidd a San Steffan
- Aelodau Llywodraeth Cymru
- Asiantaethau a Byrddau'r Sector Cyhoeddus
- Aelodau'r gymuned fusnes, yn rhyngwladol, yn genedlaethol ac yn lleol
- Cynghorau Tref a Chymuned
- Sefydliadau Gwirfoddol a Chymunedol:
- Trigolion a Defnyddwyr Gwasanaethau pob un o Gynghorau Gogledd Cymru

**MANYLEB PERSON**
**TEITL Y SWYDD: Prif Swyddog / Rheolwr Gyfarwyddwr**

| **MANYLEB PERSON** | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD:** | **Prif Swyddog** |

| **Meini Prawf:** | **Hanfodol** | **Dymunol** | **Dull o Asesu:** |
|---|---|---|---|

**Addysg / Cymwysterau Proffesiynol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Addysg ar lefel gradd neu gyfatebol | ✓ | | A & E |
| Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol a rheolaethol parhaus a pherthnasol | ✓ | | A & E |
| Cymhwyster rheoli e.e. MBA/DMS neu gyfatebol | | ✓ | A & E |

**Sgiliau, Galluoedd a Gwybodaeth**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y gallu i roi arweinyddiaeth gref ac effeithiol | ✓ | | I,R |
| Y gallu i sefydlu timau cryf sy'n perfformio'n dda | ✓ | | A, I, Ex, R |
| Y gallu i feddwl a chynllunio'n strategol, yn ddadansoddol ac yn ariannol am faterion cymhleth, ac i ganfod atebion creadigol ac arloesol. | ✓ | | I, Ex, R |
| Y gallu i ddatblygu a darparu cynlluniau busnes | ✓ | | I,R,E |
| Y gallu i ddatrys problemau mewn cyd-destunau cymhleth | ✓ | | A, I, Ex, R |
| Y gallu i ddylanwadu ar eraill i ddarparu'r gwasanaeth gorau i'r cwsmer. | ✓ | | I, R |
| Y gallu i gyfathrebu a chyflwyno'n rhagorol, ar lafar ac ar bapur. Sgiliau rhyngbersonol rhagorol. | ✓ | | P |
| Cydymdeimlad cryf â'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig | ✓ | | I |
| Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg | ✓ | | I |
| Yn gallu dangos sgiliau rhagorol o ran tact, diplomyddiaeth, perswadio, trafod, adfocatiaeth a phendantrwydd. | ✓ | | I, R |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r materion allweddol sydd ynghlwm â chynllunio polisi a rheoli perfformiad. | ✓ | | I, Ex |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r prif broblemau sy'n wynebu llywodraeth leol ac o'r hyn y gallai hynny olygu. | ✓ | | I, Ex |
| Yn deall gweledigaeth y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng nghyd-destun polisi cenedlaethol. | ✓ | | I, Ex |
| Yn gallu dangos dealltwriaeth o'r cyd-destun gwleidyddol ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. | ✓ | | I, Ex |
| Yn gallu dangos dealltwriaeth drylwyr o fframweithiau rheolaethol addysg. | ✓ | | I,EX |

| Meini Prawf: | Hanfodol | Dymunol | Dull o Asesu: |
|---|---|---|---|
| **Profiad** | | | |
| Profiad o weithio ar lefel uwch reolwyr mewn sefydliad amrywiol a chymhleth yn y sectorau cyhoeddus neu breifat. | ✓ | | I, Ex |
| Profiad o ddatblygu a gweithredu holl agweddau'r Fframweithiau Rheoli Cynllunio Risgiau Busnes, a Rheoli Perfformiad. | ✓ | | A,I,E |
| Profiad o sefyllfaoedd addysgol a chynhwysedd | ✓ | | A,I |
| Profiad amlwg o arwain a rheoli timau aml ddisgyblaeth yn llwyddiannus gyda phrofiad arwyddocaol o adeiladu timau cryf sy’n perfformio’n dda | | | |
| Yn gallu dangos profiad o arweinyddiaeth a rheolaeth lwyddiannus o dimau aml ddisgyblaethol. | | ✓ | A, I, |
| Profiad amlwg o weithio’n llwyddiannus mewn amgylchedd gwleidyddol. | ✓ | | A, I, |
| Profiad helaeth o gynllunio strategol, denu adnoddau ac o reoli cyllidebau mawr ac adnoddau eraill un ai yn y sector cyhoeddus neu’r sector preifat. | ✓ | | A, I, Ex |
| Profiad o weithio’n effeithiol mewn partneriaeth gydag amrywiaeth eang o gyrff mewnol ac allanol. | ✓ | | A, I, Ex |
| Profiad o wella perfformiad a chanlyniadau mewn sefydliad mawr a chymhleth. | ✓ | | A, I |
| Profiad o arwain newid yn llwyddiannus mewn sefydliad mawr a chymhleth. | ✓ | | A, I |
| Profiad o weithgaredd rheolaethol | | ✓ | A,I |
| **Nodweddion / Priodoleddau Personol** | | | |
| Yn dangos ymrwymiad cryf i wasanaeth cyhoeddus a chyfleoedd cyfartal. | ✓ | | A, I, R |
| Yn dangos ymrwymiad cryf i wasanaeth y cwsmer. | ✓ | | A, I, R |
| Yn dangos barn a sensitifrwydd gwleidyddol. | ✓ | | A, I, R |
| Synnwyr cryf o atebolrwydd ei hunan ac eraill | ✓ | | A, I, R |
| Yn derbyn cyfrifoldeb pan nad yw atebolrwydd yn glir. | ✓ | | I |
| Yn unplyg a phriodol iawn. | ✓ | | A, I, R |
| Yn dangos gwytnwch o dan bwysau. | ✓ | | A, I, R |
| Yn dangos agwedd ymatebol a hyblyg at ofynion a blaenoriaethau cyfnewidiol. | ✓ | | A, I, R |
| Yn addasu arddull bersonol yn ôl anghenion sefyllfaoedd cymhleth. | ✓ | | I |
| Yn dangos uchelgais fawr i lwyddo ac i berfformio. | ✓ | | A, I, R |
| Brwdfrydig, ymroddgar, hunan ysgogol a chyda synnwyr cryf o bwrpas | ✓ | | A, I, R |

A = ffurflen gais  I = cyfweliad
E = prawf  P = cyflwyniad  Ex = ymarfer

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**01/02/2017**

**Adroddiad gan:** Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Pwnc:** Rhaglen Herio a Chefnogi: Model o weithio Uwchradd diwygiedig a datblygu model Arweinyddiaeth ddosranedig ar draws sectorau cynradd ac uwchradd

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 I gyflwyno i'r Cyd-Bwyllgor y newidiadau arfaethiedig i'r Rhaglen Herio a Chefnogi Uwchradd, i'w hystyried a'u cymeradwyo.

## 2.0 Cefndir

Mae *Rhaglen Herio a Chefnogi GwE* wedi rhoi ystyriaeth lawn i ganllawiau Llywodraeth Cymru fel yr amlinellir yn nogfen ganllaw Llywodraeth Cymru '*Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol'* [Tachwedd 2015]. Fodd bynnag, rhwng 2013 a 2016 mae'r patrwm gwelliant ar draws y rhanbarth wedi bod yn anghyson ac erys pryder sylweddol am berfformiad a phroffil arolygiadau canran sylweddol o ysgolion y sector uwchradd. Yn ystod 2015-16 diwygiwyd y rhaglen gefnogaeth ar gyfer y ddau sector a thra bu i hynny arwain at welliannau yng ngwydnwch ac ansawdd arweinyddiaeth a phrofiadau dysgu ac addysgu yn y sector cynradd, prin fu'r effaith ar safonau a deilliannau mewn nifer sylweddol o ysgolion uwchradd. Mae'r sefyllfa yn parhau yn simsan mewn o leiaf dau awdurdod ac yn hynod fregus mewn dau awdurdod arall.

### 2.1 CAM GWEITHREDU ALLWEDDOL 1: DATBLYGU MODEL UWCHRADD DIWYGIEDIG AR GYFER 2017

#### 2.1.1 Cyd-destun

Nodir pryder penodol mewn perthynas â'r ffaith bod :

- 61.8% o ysgolion yn 50.0% isaf meincnodau cenedlaethol PYD ar gyfer y TL2+ a'r Sgôr Pwyntiau Wedi'i Gapio a 60.0% mewn Saesneg a Mathemateg.

- 61.8% o ysgolion y rhanbarth â’u perfformiad yn y TL2+ yn is na’r deilliant a ddisgwylir ar sail cymhwysedd PYD. Mae’r ffigwr mewn dau awdurdod yn 75.0% neu uwch.
- 41.8% o ysgolion uwchradd yn y ddau gategori cefnogaeth dwysaf a 12.7% yn y categori cefnogaeth mwyaf dwys.
- 11% o ysgolion mewn categori dilyniant statudol a 5% mewn Mesurau Arbennig.
- asesiad risg cyfredol o holl ysgolion y rhanbarth yn amlygu bod 10-20% pellach o ysgolion mewn risg o gael eu gosod mewn categori dilyniant statudol mewn unrhyw arolygiad arfaethedig.

Mae’r ystadegau uchod, ynghyd â chanfyddiadau o drafodaethau ffurfiol ac anffurfiol gydag Ymgynghorwyr Her, UDRh GwE ac uwch arweinwyr yn yr ysgolion a’r awdurdodau ar draws y rhanbarth, yn amlygu’n glir yr angen i adolygu’r model cyfredol o weithredu ac i symud ar gyflymder i sefydlu dull amgenach o gefnogi a herio ac o sicrhau atebolrwydd ar bob lefel.

**2.1.2 Disgwyliadau wrth symud ymlaen:**

- Codi safonau yng Nghyfnodau Allweddol 3, 4 a 5;
- Y 6 Awdurdod Lleol i berfformio’n well mewn perthynas â’u safleoedd PYD a’u meincnodau disgwyliedig yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4;
- Dim un ysgol i gael ei gosod mewn categori statudol gan Estyn;
- Cyflawniad dysgwyr PYD a Mwy Abl a Thalentog yn flaenoriaeth ym mhob ysgol;
- Sicrhau bod arweinyddiaeth ym mhob ysgol yn dda neu’n well.

**2.1.3 Y Model Diwygiedig**

Nod y model diwygiedig yw sicrhau bod gwell defnydd yn cael ei wneud o arbenigeddau a phrofiadau Uwch Ymgynghorwyr Her, Ymgynghorwyr Her, Uwch Arweinwyr Ysgolion a Swyddogion Addysg i ddarparu cynhaliaeth a chymorth o ansawdd ac mewn dull fydd yn gyson ar draws pob hwb a rhanbarth.

Bydd y model diwygiedig ar gyfer yr uwchradd yn cynnwys :

- Sefydlu tîm uwchradd fydd yn cyfateb i 9 YH llawn amser. Bydd y tîm yn atebol i UDRh GwE, i’r *Rhwydwaith Gwella Ysgolion Rhanbarthol* ac, yn lleol, i *Fwrdd Ansawdd Safonau* [BAS] yr amryfal awdurdodau. Cyfrifoldeb y BAS fydd adrodd ar weithredu a chynnydd lleol i Dîm Rheoli'r Adran Addysg ac i ddiwallu unrhyw ofynion ddaw yn sgil craffu gan aelodau etholedig. Caiff deilliannau craffu lleol yn y 6 awdurdod eu rhaeadru wedyn i *Gydbwyllgor GwE* fydd yn ystyried gweithredu a chynnydd ar lefel ranbarthol.
- Cyfansoddiad y tîm uwchradd i gynnwys cyfuniad o YH sy’n gyflogedig llawn/rhan amser gan y gwasanaeth; Swyddogion Addysg o’r awdurdodau; aelodau UDRh ysgolion ar secondiadau dros dro [llawn/rhan amser]; YH Annibynnol fydd yn gweithredu trwy gomisiwn i’r gwasanaeth rhanbarthol ynghyd â threfniadau ble byddwn yn sefydlu model o gomisiynu *Ysgol Arweiniol* i drefnu a darparu'r pecyn cynhaliaeth ar gyfer ysgol neu ysgolion eraill sydd yn y categori cefnogaeth *Melyngoch/Coch*. Ar gyfer yr *Ysgolion Arweiniol* darperir 3 ffrwd ariannol - swm craidd i’r fam ysgol er mwyn buddsoddi mewn cynhwysedd, swm ychwanegol fydd ar gael i’w fuddsoddi’n uniongyrchol yn yr ysgol bartner a thaliad bonws fydd ar gael i’r *Ysgol Arweiniol* pe gwireddir deilliannau cytunedig.
- *Arweinwyr Portffolio Rhanbarthol* i gael eu hadnabod er mwyn sicrhau bod arweiniad a gwybodaeth gyson ac o ansawdd ar gael i holl ysgolion y rhanbarth. Gall y gofyn gael ei ddiwallu gan fodel fydd yn gyfuniad o YH/YH Annibynnol/Swyddogion a Thimau Addysg yr Awdurdodau/Pennaeth neu UDRh Ysgol. Rhagwelir y bydd angen arweinwyr ar gyfer agweddau

megis : *cynllunio cwricwlaidd a'r dangosyddion diwygiedig; asesu, tracio ac ymyrraeth; dysgu ac addysgu; uwch arweinyddiaeth ac arweinyddiaeth ganol; llywodraethu ac adnoddau dynol; adolygiadau craffu, arolygiadau a chategoreiddio; lles, ymddygiad a phresenoldeb; ADY a grwpiau dysgwyr; codi safonau Saesneg, Cymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth [gan gynnwys llythrennedd a rhif]*; *cymhwysedd digidol; BAC a 14-19.*

- Adnabod YH cyswllt i bob ysgol a thîm o YH cefnogol. Pennir maint y tîm ar sail risg [Gwyrdd = 2; Melyn = 4; Melyngoch/Coch = 6].
- Defnyddio Ymgynghorwyr Her Pynciol fel rhan o'r tîm er mwyn herio a chefnogi adrannau sy'n tanberfformio a chynnig cefnogaeth ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd.
- Pob ysgol i dderbyn *Cynllun Cymorth* fydd yn amlygu natur y gynhaliaeth a'r gefnogaeth dros y flwyddyn.
- Cynnal adolygiad/ymarferion craffu mewn ysgolion lle mynegwyd pryder cychwynnol ynglŷn â safonau/arweinyddiaeth. Pob ysgol yn y categorïau cefnogaeth *Gwyrdd/Melyn* i dderbyn ymweliad craffu gan dîm o gymheiriaid a'r YH cyswllt pob 2 flynedd er mwyn gwirio parodrwydd i wynebu arolygiad llwyddiannus.
- Gofynion gweithredu cyfredol gydag ysgolion *Melyngoch/Coch* i'w cynnal h.y. parhau i dderbyn cefnogaeth ddwys sydd yn cyfateb i un diwrnod yr wythnos [manylion llawn am y disgwyliadau gweithredu wedi eu cynnwys yn Llawlyfr Rhaglen 2015-16]. Fodd bynnag, bydd disgwyliad ychwanegol i bob ysgol yn y categorïau cefnogaeth *Melyngoch/Coch* sefydlu *Bwrdd Safonau* er mwyn monitro cynnydd tuag at y deilliannau disgwyliedig. Aelodaeth i gynnwys y Pennaeth, yr YH cyswllt, Swyddog Addysg a chynrychiolaeth o blith y Corff Llywodraethol. Adroddiadau cynnydd i'w cyflwyno i sylw'r *Bwrdd Safonau Rhanbarthol.*
- Meithrin capasiti ar gyfer system hunan-wella gynaliadwy. Bydd angen uwch-sgilio a datblygu Uwch Arweinwyr ac Arweinwyr Canol ar draws y rhanbarth er mwyn i'r gwasanaeth rhanbarthol allu gwneud defnydd effeithiol ohonynt fel ymgynghorwyr sy'n gweithredu'n ddwys am gyfnod penodedig gydag ysgolion lle gwelir tanberfformiad a pherfformiad cyfforddus. Byddant yn rhannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd gyda'r ysgolion hynny wrth iddynt herio a chefnogi eu gwelliannau o fewn meysydd penodol a dargedwyd megis Arweinyddiaeth, Dysgu ac Addysgu, Llythrennedd, Rhifedd, Gwella perfformiad dysgwyr PYD, TGCh, ac Asesu a Thracio. Byddant hwythau yn eu tro yn datblygu ac ehangu eu gwybodaeth a'u sgiliau eu hunain gan greu cnewyllyn o Arweinwyr o fewn y system ysgolion sy'n gallu herio a chefnogi ysgolion i wella.
- Hwyluso rhwydweithiau effeithiol ar gyfer rhannu arfer dda o fewn ac ar draws ysgolion, yn cynnwys cefnogi ysgolion uwchradd gwledig bychan i weithio'n effeithiol.
- Gwella darpariaeth Rhaglenni Datblygu GwE er mwyn gwella addysgeg a sgiliau arwain ar bob lefel.
- Annog a hwyluso ymchwil ac arfarnu er mwyn datblygu addysgeg effeithiol.
- Sicrhau bod mentrau cenedlaethol yn cyd-fynd yn agos ag anghenion ysgolion a grwpiau o ysgolion.
- Sefydlu *Bwrdd Safonau Rhanbarthol* er mwyn monitro cynnydd ysgolion *Melyngoch/Coch* tuag at y deilliannau disgwyliedig. Aelodaeth i gynnwys : Rheolwr Gyfarwyddwr, Cyfarwyddwr Cynorthwyol; 3 UYHCh, cynrychiolaeth o'r Bwrdd Ymgynghorol a Bwrdd Rheoli GwE. Adroddiadau cynnydd gan y Bwrdd i'w cyflwyno i sylw'r *Rhwydwaith Gwella Ysgolion Rhanbarthol.* Caiff deilliannau'r craffu rhanbarthol eu hadrodd wedyn i *Fwrdd Rheoli GwE* gan y Cyfarwyddwr Arweiniol.
- Sefydlu *Cymdeithas Penaethiaid Uwchradd Gogledd Cymru* a chynnal cynhadledd flynyddol er mwyn cytuno ar flaenoriaethau, er mwyn gosod disgwyliadau cyffredin ac er mwyn rhannu'r arferion gorau. Awgrymir sefydlu *Grŵp Llywio Gweithredol* i'r gymdeithas er mwyn cydlynu a threfnu'r gynhadledd flynyddol ac er mwyn gweithredu fel *Grŵp Defnyddwyr Uwchradd* i GwE.
- Ar sail ranbarthol, darparu rhaglen hyfforddiant flynyddol sy'n ymateb i ofynion blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol [awgrymir clustnodi 2 ddiwrnod HMS cyffredin ar draws y 6 awdurdod – Hydref a Gwanwyn].

- Darparu rhaglen hyfforddiant flynyddol fydd wedi'i thargedu i ysgolion penodol ar sail asesiad risg.
- Annog ysgolion i barhau i ymgymryd gyda rhaglen o gydweithio a chyd-gefnogi Y>Y ar sail anghenion cyffredin.
- Cynnal asesiad risg ym mhob ysgol uwchradd er mwyn nodi anghenion rhanbarthol a chenedlaethol.
- Gofyn i bob ysgol uwchradd gyfrannu % o'r GGA yn flynyddol tuag at gost y rhaglenni hyfforddiant uchod [fformiwla i'w sefydlu ar sail categori cefnogaeth ysgolion gyda'r cyfraniadau dwysaf gan ysgolion *Melyngoch/Coch*].
- Gweithredu proses Sicrhau Ansawdd a Monitro rymus.

**2.2 CAM GWEITHREDU ALLWEDDOL 2: DATBLYGU ARWEINYDDIAETH DDOSRANEDIG AR DRAWS Y DDAU SECTOR (gweler Atodiad 1)**

Mewn trafodaethau gyda rhanddeiliaid allweddol, yn cynnwys aelodau tîm, nodwyd yr angen i sicrhau bod gwell defnydd yn cael ei wneud o arbenigeddau a phrofiadau Uwch Ymgynghorwyr Her, Ymgynghorwyr Her, Uwch Arweinwyr Ysgolion a Swyddogion Addysg i ddarparu cynhaliaeth a chymorth o ansawdd ac mewn dull fydd yn gyson ar draws pob hwb a rhanbarth. Mae'r model diwygiedig ar gyfer y sector uwchradd [manylion uchod] yn amlinellu'r ddadl dros sefydlu Arweinwyr Portffolio rhanbarthol a lleol. Mae'r angen am ddull tebyg ar gyfer y sector cynradd hefyd yn amlwg. Bydd newid i fodel o arweinyddiaeth ddosranedig yn sicrhau model mwy effeithiol lle bydd aelodau tîm yn perchnogi penderfyniadau allweddol yn well. Bydd aelodau tîm hefyd yn atebol am arfarnu datblygiadau a chynnydd yn erbyn y meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt, gan arwain unwaith eto at well perchnogaeth dros ddeilliannau. Bydd y dull dosranedig hefyd yn sicrhau y gall y gwasanaeth gynnig cyfleoedd datblygiad proffesiynol gwerthfawr i bob Ymgynghorydd Her.

**3.0 YSTYRIAETHAU**

3.1 Yr angen i adnabod ffynonellau cyllido ychwanegol neu ddulliau o arallgyfeirio adnoddau presennol mewn ymateb i'r gofyn i gynyddy cynhwysedd yn y Tim Uwchradd ac i sefydlu model arweinyddiaeth dosranedig ar draws y ddau sector.

3.2 Sicrhau cyfathrebu effeithiol gyda'r ystod o randdeiliaid.

3.3 Adnabod unigolion/ysgolion fyddai'n gallu cyfrannu'n effeithiol i'r model diwygiedig.

3.4 Mynd i'r afael â materion allweddol o ran staffio er mwyn sicrhau gwell cynhwysedd ar gyfer cyflawni'r ddau gam gweithredu.

**4.0 Argymhellion**

**4.1** Gofynnir i'r Cydbwyllgor argymell a chefnogi'r gweithredau canlynol:

- Sefydlu a gweithredu model Uwchradd diwygiedig ar gyfer 2017
- Sefydlu a gweithredu model arweinyddiaeth drosranedig ar draws sectorau uwchradd a chynradd i sicrhau defnydd mwy effeithiol a chynhyrchiol o'r gweithlu

**5.0 Goblygiadau ariannol**

5.1 Bydd unrhyw goblygiadau ariannol fydd yn codi o'r model newydd yn cael eu hariannu o adnoddau cyfredol neu arian grant. Ni wneir cais i'r awdurdodau lleol i gynyddu eu cyfraniadau i'r gyllideb craidd.

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Bydd unrhyw newidiadau i'r strwythur neu i fanylebau person yn amodol ar effaith ar gydraddoldeb a gwaith cydymffurfio.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Bydd unrhyw waith cynllunio'r gweithlu neu dasgau newid strwythur yn amodol ar ymgynghori â'r gweithlu a'r protocol ar gyfer gwneud penderfyniadau.

**8.0 Ymgynghori a wnaed**

8.1 Mae Bwrdd Rheoli GwE wedi trafod a chefnogi'r cynigion hyn. Ymgynghorwyd â Phenaethiaid fforymau strategol ynghylch y model uwchradd diwygiedig.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Fel a nodir yn 5.1 mae'r awdur yn cadarnhau y bydd unrhyw goblygiadau ariannol ychwanegol yn cael eu hariannu o adnoddau cyfredol neu arian grant.

**Atodiad 1**

**Grid Arweinyddiaeth Ddosranedig / *Distributive Leadership Grid***



| **GWEITHREDU TRAWS SECTOR / CROSS PHASE** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Agwedd/Area** | **Nifer dyddiau<br>Number of days** | **Prif Arweinydd<br>Rhanbarthol<br>Main Regional Lead** | **Hwb<br>G/M<br>G/M Hub** | **Hwb C/D<br>C/D Hub** | **Hwb<br>Ff/W<br>W/F Hub** |
| ADY / ALN | Lead 39<br>LA contribution<br>Hub 3x8 | | | **SCSA to confirm hub reps** | |
| Lles, presenoldeb a hyrwyddo ymddygiad da / Welbeing attendance and promoting positive behaviour<br>1) PDG<br>2) LAC<br>3) Inclusion<br>4) Attendance | Lead – FTE (2 terms)<br>Hub 3x15 | | | | |
| Datblygu rol Llywodraethwyr / Develop role of Governors | Hub 3x15 | Rhwydwaith Rhanbarthol | | | |
| Cydlynydd rhaglenni datblygol arweinyddiaeth / Leadership development programme co-ordinator | | | x | x | x |
| Cydlynydd trefniadau categoreiddio – arweinydd cymedroli / Categorisation process co-ordinator – lead moderator | Lead x10<br>Hub 2x5 | | | | |
| Cymhwysedd Digidol x2 / Digital Competency x2 [primary/secondary] | Lead - FTE<br>Deputy 0.4 | | | | |
| Llythrennedd Corfforol / PLPS | 0.4 FTE | | x | x | x |
| ANG + Hyfforddiant cychwynnol i athrawon / NQT + ITET | 0.4 FTE | | x | x | x |
| Standardisation and Moderation of Teacher Assessment | Lead 20 | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Hub 2x10 | | | | |
| CYSAG / SACRE | Funding? | | x | x | x |
| Blaengareddau Cenedlaethol / National Initiatives :<br>• Ysgol Arloesi<br>• Ysgolion Sy'n Dysgu [OECD] / Learning Schools<br>• Ysgolion Creadigol Arweiniol / Lead Creative Schools<br>• Ysgolion Celfyddydau Creadigol / Creative Arts Schools | SCSA – FTE<br>Hub 3x10 | | | | |
| **TOTAL** | 1 FTE SCSA<br>2.2 FTE<br>1 FTE (2 terms)<br>+<br>243 backfill days | | | | |

| **CYNRADD / PRIMARY** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Agwedd/Area** | **Nifer dyddiau Number of days** | **Prif Arweinydd Rhanbarthol Main Regional Lead** | **Hwb G/M G/M Hub** | **Hwb C/D C/D Hub** | **Hwb Ff/W W/F Hub** |
| Codi safonau CS a CA2 / Raising standards in FPh and KS2 :<br>• asesu ffurfiannol / formative assessment | (SCSA – FTE)<br>KS2 Lead x15<br>Hub 2x8 | | | | |
| • ansawdd darpariaeth a phrofiadau / quality of provision and experiences | (SSCSA – FTE)<br>KS2 Lead x15<br>Hub – 2x8 | | | | |
| • ansawdd pedagogiaeth / quality of pedagogy | (SCSA – FTE)<br>KS2 Lead x15<br>Hub 2x8 | | | | |
| Codi safonau llythrennedd yn y CS a CA2 [Cymraeg a Saesneg] / Raising standards in literacy in FPh + KS2 [Welsh and English] | SCSA - FTE<br>Hub 3x10 | | | | |
| Codi safonau rhifedd yn y CS a CA2 / Raising standards in numeracy in FPh + KS2 | SCSA - FTE<br>Hub 3x10 | | | | |
| Gosod targedau, asesu crynodol, tracio ac ymyrraeth effeithiol / Target setting, summative assessment and effective intervention | Lead 20<br>Hub 2x10 | | | | |
| Gwella ansawdd arweinyddiaeth ar bob lefel / Improving leadership at all levels | Lead -20<br>Hub 2x10 | | | | |
| **TOTAL** | 1 FTE SCSA<br>+<br>233 backfill days | | | | |

| UWCHRADD / SECONDARY | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Agwedd/Area** | **Nifer dyddiau Number of days** | **Prif Arweinydd Rhanbarthol Main Regional Lead** | **Hwb G/M G/M Hub** | **Hwb C/D C/D Hub** | **Hwb Ff/W W/F Hub** |
| Y Tim Llythrennedd a Rhifedd / Literacy and Numeracy team | | | | | |
| Codi safonau llythrennedd Cymraeg a Chymraeg TGAU / Raise standards in Welsh literacy and Welsh GCSE | 0.4 FTE | | x | x | x |
| Codi safonau llythrennedd Saesneg a Saesneg TGAU / Raise standards in English literacy and English GCSE | 1 FTE | | | x | x |
| Codi safonau rhifedd a Mathemateg TGAU / Raise standards in numeracy and Maths GCSE | | | | x | x |
| Codi safonau Gwyddoniaeth TGAU / Raise standards in Science GCSE | 1.4 FTE | | | x | x |
| Cynllunio cwricwlwm / Curriculum Planning<br>Inc GCSE Qualifications and new specifications | 55 | Seconded Head 1 | x | x | x |
| Gosod targedau, asesu crynodol, tracio ac ymyrraeth effeithiol / Target setting, summative assessment and effective intervention | 55 | | x | x | x |
| Gwella ansawdd y dysgu ac addysgu / Improving T+L [ i gynnwys AaGD/to include AfL] | 55 | Seconded Head 2 | Sch1 | Sch2 | Sch3 |
| 14-19 + Gyrfa Cymru + Cyswllt AB-AU / 14-19 + Careers Wales + FE-HE Link | 10 | | x | x | x |
| BAC | | | x | x | x |
| Human Resources / Adnoddau Dynol | 20 | | | | |
| Ymweliadau Craffu Dwys Rhanbarthol / Regional deep-dive reviews | 50 | | x | x | x |
| Ymchwil gweithredol / Action Research | Secondments | Prifysgol Bangor | | | |
| **TOTAL** | 2.8 FTE SCA University Secondments + | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 245 days +100 days below | | | | | |

| Agweddau yn gofyn am ymwneud tim / Areas requiring team approach (Task and Finish group) x 100 days |
|---|
| • Gwella arweinyddiaeth, e.g. aelodau tim x 6, 3 arweinydd hwb |

GwE
Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**01/02/2017**

**Adroddiad gan:** Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Pwnc:** Protocol Rhanbarthol ar gyfer Penodi mewn Ysgolion

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

I gyflwyno'r protocol rhanbarthol arfaethiedig i'r Cyd bwyllgor i'w ystyried a'i gymeradwyo.

**2.0 Cefndir**

Er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y rhanbarth, cytunwyd ar y protocol canlynol gyda phob un o'r 6 Awdurdod Lleol, fel rhan o'u gweithdrefnau penodi (ar gyfer Ysgolion Cynradd, Uwchradd ac Arbennig).

**3.0 Protocol Arfaethiedig**

**3.1 Rôl GwE wrth benodi penaethiaid**

3.1.1. Bydd Corff Llywodraethu'r ysgol yn hysbysu'r Awdurdod Lleol pan fydd angen penodi pennaeth. Yna, bydd yr Awdurdod Lleol yn cysylltu â'r Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth i drefnu cefnogaeth briodol ar gyfer y broses benodi.

3.1.2 Bydd yr Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth (neu gynrychiolydd enwebedig) yn mynychu pob cyfweliad proffesiynol/canolfan asesu ac yn cynnig cyngor i'r Corff Llywodraethu/Awdurdod Lleol ar y penodiad. Dim ond ar gais penodol a gytunwyd ar y cyd gan y Corff Llywodraethu a'r Awdurdod Lleol y bydd yr Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth (neu gynrychiolydd enwebedig) yn mynychu'r cyfweliad ffurfiol.

3.1.3 Os nad oes cyfweliad proffesiynol/canolfan asesu, bydd yr Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth (neu gynrychiolydd enwebedig) yn mynychu'r cyfweliad ffurfiol i gynnig cyngor i'r Corff Llywodraethu a'r Awdurdod Lleol ar y penodiad.

3.2 **Rôl GwE wrth benodi uwch arweinwyr eraill**

3.2.1 Bydd y Pennaeth neu'r Corff Llywodraethu yn hysbysu'r Awdurdod Lleol pan fydd angen penodi Uwch Arweinydd. Yna, bydd yr Awdurdod Lleol yn cysylltu â'r Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth i drefnu cefnogaeth briodol ar gyfer y broses benodi.

3.2.2. Ar gais y Corff Llywodraethu a'r Awdurdod Lleol, bydd yr Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth (neu gynrychiolydd enwebedig) yn mynychu'r cyfweliad proffesiynol/ canolfannau asesu ac yn cynnig cyngor i'r Corff Llywodraethu/Awdurdod Lleol ar y penodiad. Dim ond yn dilyn derbyn cais penodol a gytunwyd ar y cyd gan y Corff Llywodraethu a'r Awdurdod Lleol y bydd yr Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth (neu gynrychiolydd enwebedig) yn cymryd rhan yn y cyfweliad ffurfiol gyda'r Corff Llywodraethu.

3.2.3. Os nad oes cyfweliad proffesiynol/canolfan asesu, bydd yr Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth (neu gynrychiolydd enwebedig) yn mynychu'r cyfweliad ffurfiol ar gais y Corff Llywodraethu a'r Awdurdod Lleol i gynnig cyngor i'r Corff Llywodraethu a'r Awdurdod Lleol ar y penodiad.

**3.3. Rôl GwE wrth benodi pob aelod arall Lleol o staff addysgu**

3.3.1 Anogir y Pennaeth i hysbysu Ymgynghorydd Her GwE pan fydd angen penodi athro/athrawes.

3.3.2 Bydd yr Ymgynghorydd Her yn trafod y penodiad gyda'r Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth (neu gynrychiolydd enwebedig) cyn cynnig unrhyw gyngor posib i'r Corff Llywodraethu/Awdurdod Lleol mewn perthynas â'r penodiad.

3.3.3 Ni fydd yr Ymgynghorydd Her yn cymryd rhan yn y broses gyfweld ac eithrio mewn amgylchiadau arbennig a ystyrir yn briodol yn dilyn cais penodol a gyflwynwyd i'r Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth ar y cyd gan y Corff Llywodraethu a'r Awdurdod Lleol.

**3.4 Rôl GwE wrth benodi unrhyw aelodau eraill o staff**

3.4.1 Ni fydd staff GwE yn rhan o unrhyw benodiadau eraill ac eithrio mewn amgylchiadau arbennig a ystyrir yn briodol yn dilyn cais penodol a gyflwynwyd i'r Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth ar y cyd gan y Corff Llywodraethu a'r Awdurdod Lleol.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Argymhellir bod y Cyd-bwyllgor yn cymeradwyo'r protocol arfaethiedig

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori a wnaed**

8.1 Mae'r awgrymiadau wedi eu trafod a'u cefnogi, gan Fwrdd Rheoli GwE a'r Bwrdd Rhanbarthol Ansawdd. Rydym yn y broses o ymgynghori gyda'r Esgobaeth.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Mae fframwaith statudol ar gyfer recriwtio staff ysgolion sy'n gosod gofynion craidd y broses. Mae'r darpariaethau yn darparu ar gyfer y cyd-berthynas rhwng y corf llywodraethu sy'n penodi a'r prif swyddog addysg a'i hawliau statudol mewn perthynas â darparu cyngor. Ymddengys bod y protocol a gynigir, at ei gilydd, yn gyson â'r model hwnnw.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**01/02/2017**

**Adroddiad gan:** Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Pwnc:** Proses Gosod Targedau Rhanbarthol

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Rhoi diweddariad i'r Cyd Bwyllgor ar y broses gosod targedau rhanbarthol.

**2.0 Cefndir**

2.1 Cyhoeddir gofynion targedau statudol a lleol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r targedau hyn yn ymwneud â deilliannau perfformiad ac yn cynnwys targedau grwpiau o ddisgyblion ar sail hawl i Brydau Ysgol am Ddim (PYD). Rhaid i bob ysgol ac Awdurdod Lleol unigol osod targedau yn ôl y gofynion statudol a lleol.

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Gosodwyd targedau ar gyfer y dangosyddion perfformiad allweddol ym mhob cyfnod allweddol i'r Awdurdodau Lleol yn ôl y meini prawf a ganlyn:

**2016-17**

- Drwy gyfrifo'r perfformiad y byddai ei angen ar yr awdurdod i gael ei osod yn yr un safle â safle PYD yr ALl ar gyfer pob dangosydd (gan hefyd ystyried y cynnydd cenedlaethol tebygol ar sail cyfartaledd cynnydd Cymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf).
- Addasu'r ffigwr uchod i adlewyrchu ffactorau lleol.

**2017-18**

- Drwy ychwanegu cyfartaledd cynnydd Cymru at dargedau 2016-17.

**2018-19**

- Drwy ychwanegu cyfartaledd cynnydd Cymru at dargedau 2017-18.

3.2 Gosodwyd targedau ar gyfer disgyblion PYD yn y dangosyddion perfformiad allweddol yn ôl y meini prawf a ganlyn:

**2016-17**

- Petai canlyniad 2015-16 ALl yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, yna gosodwyd targed 2016-17 drwy ychwanegu cyfartaledd cynnydd Cymru at y ffigwr hwn.
- Petai canlyniad 2015-16 ALl yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol, yna gosodir targed 2016-17 fel y cyfartaledd cenedlaethol yn 2015-16 gyda chyfartaledd cynnydd Cymru yn cael ei ychwanegu.

**2017-18**

- Drwy ychwanegu cyfartaledd cynnydd Cymru at dargedau 2016-17.

**2018-19**

- Drwy ychwanegu cyfartaledd cynnydd Cymru at dargedau 2017-18.

3.3 Pennwyd targedau rhanbarthol GwE ar gyfer disgyblion PYD drwy gyfrifo niferoedd y disgyblion fyddai eu hangen i gyrraedd targedau cytûn yr ALl a'u crynhoi i gynhyrchu gwerth rhanbarthol.

## 4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd Bwyllgor dderbyn cynnwys yr adroddiad.

## 5.0 Goblygiadau Ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol newydd yn deillio o'r adroddiad hwn.

## 6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau yn deillio o'r adroddiad hwn.

## 7.0 Goblygiadau ar Bersonél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn deillio o'r adroddiad hwn.

## 8.0 Ymgynghori

8.1 Dim.

## 9.0 Atodiadau

9.1 Targedau Rhanbarthol 2017-19

Gweler yr Atodiad

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

**Swyddog Cyllid Statudol:**
Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol

GwE Tuag at Ragoriaeth Towards Excellence

Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru
Regional School Effectiveness & Improvement Service for North Wales

GwEGogledd.Cymru / GwENorth.Wales

# Targedau 2017-2019

**Methodoleg**

**1. Targedau y cohort llawn**

| | |
|---|---|
| Targed 16/17 | =Targed fel a gyflwynwyd gan yr awdurdod |
| Targed 17/18 | =Targed 16/17 + Cyfartaledd Cynnydd Cymru 15/16 - 13/14 |
| Targed 18/19 | =Targed 17/18 + Cyfartaledd Cynnydd Cymru 15/16 - 13/14 |

Cyfartaledd Cynnydd Cymru 15/16 - 13/14

| **Cymru/Wales** | 13/14 | 14/15 | 15/16 | Cyf Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| % llwyddo | X | Y | Z | =(z-x)/2 |

Targed 16/17 wedi ei gyflwyno gan yr awdurdodau yn seiliedig ar unai

- Y % yn deillio o grynhoi data a gasglwyd o'r Ysgolion
- % yr ALL sydd yn safle PYD yr awdudod perthnasol h.y. os ydi safle PYD awdurdod = X/22 yna fe ystyrir y % yn safle X ymhob dangosydd
- % wedi ei bendefynu gan yr awdurdod yn unol ag arbenigedd a deallusrwydd lleol.



**2.Targedau PYD wedi'u modelu drwy ychwanegu cynnydd cyfartalog Cymru at ganlyniad/targed y flwyddyn flaenorol**

| | |
|---|---|
| Targed 16/17 | =Os oedd canlyniad 15/16 yr awdurdod yn llai na chanlyniad 15/16 Cymru yna Targed=Canlyniad 15/16 Cymru + Cyfartaledd Cynnydd Cymru fel arall Targed=Canlyniad 15/16 awdurdod + Cyfartaledd Cynnydd Cymru |
| Targed 17/18 | =Targed 16/17 + Cyfartaledd Cynnydd Cymru 15/16 - 13/14 |
| Targed 18/19 | =Targed 17/18 + Cyfartaledd Cynnydd Cymru 15/16 - 13/14 |

Cyfartaledd Cynnydd Cymru 15/16 - 13/14

| **Cymru/Wales** | 13/14 | 14/15 | 15/16 | Cyf Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| % llwyddo | X | Y | Z | =(z-x)/2 |

**3. Disgyblion i gyrraedd targed.**
I gyd fynd gyda phob targed gallwn gyfrifo sawl disgybl fydd angen llwyddo i gyrraedd y targed.
Gallwn gymharu'r nifer yma gyda niferoedd mae'r Ysgolion wedi ei nodi sydd yn llwyddo er mwyn monitro tebygrwydd i gyrraedd y targed
*Nodwch - cohort yr EOTAS heb ei gynnwys.*

**4. Targedau Rhanbarthol**
O wybod y % disgwyliedig a niferoedd y disgyblion ymhob cohort awdurdod gallwn gyfrifo targedau rhanbarthol

Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru
Regional School Effectiveness & Improvement Service for North Wales
GwE
Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence
GwEGogledd.Cymru / GwENorth.Wales

# Targets 2017-2019

**Methodology**

**1. Full cohort Targets**

| | |
|---|---|
| 16/17 Target | =Target determined by LA |
| 17/18 Target | =16/17 Target + average increase in Wales result 15/16 - 13/14 |
| 18/19 Target | =17/18 Target + average increase in Wales result 15/16 - 13/14 |

Average increase in Wales result 15/16 - 13/14

| **Cymru/Wales** | 13/14 | 14/15 | 15/16 | Ave Increase |
|---|---|---|---|---|
| % achieving | X | Y | Z | =(z-x)/2 |

16/17 Target determined by LAs based on one of the following
» collating data collected from the Schools.
» Adopting the % of the authority ranked in the same position as the FSM rank of the LA for each indicator.
» local knowledge and understanding.

**2.FSM targets modelled to be the 15/16 LA or Wales %, whichever is larger, and increasing by average increase in Wales result over a two year period.**

| | |
|---|---|
| 16/17 Target | =If 15/16 LA result is less than 15/16 Wales Result then target=15/16 Wales result + average increase in Wales result 15/16 - 13/14, If 15/16 LA result greater than 15/16 Wales result then 15/16 LA result + average increase in Wales result 15/16 - 13/14 |
| 17/18 Target | =16/17 Target + average increase in Wales result 15/16 - 13/14 |
| 18/19 Target | =17/18 Target + average increase in Wales result 15/16 - 13/14 |

Average increase in Wales result 15/16 - 13/14

| **Cymru/Wales** | 13/14 | 14/15 | 15/16 | Ave Increase |
|---|---|---|---|---|
| % achieving | X | Y | Z | =(z-x)/2 |

**3. Number of pupils to reach target.**
Once the % target has been determined we can calculate the number of pupils required to reach the target based on the cohort number
The number of pupils required to reach target will be compared to the number of pupils expected to achieve
*Note - EOTAS cohort not included.*

**4. Regional Targets**
Regional Targets are determined by calculating the pupil numbers required to reach agreed LA targets and aggregating to generate a regional value.

GwE
Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru
Regional School Effectiveness & Improvement Service for North Wales
Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence
GwEGogledd.Cymru / GwENorth.Wales

# Targedau 2017-2019 - Prif Ddangosyddion

# 2017-2019 Targets - Main Indicators

Cyfnod Allweddol 4 / Key Stage 4

## Trothwy Lefel 2+ / Level 2+ Threshold

| | | 13/14 | 14/15 | 15/16 | Targed 16/17 Target | +/- | Targed 17/18 Target | Targed 18/19 Target |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 660 | Ynys Mon | 53.75 | 56.89 | 58.83 | **63.43** | 4.60 | 65.85 | 68.28 |
| 661 | Gwynedd | 61.10 | 63.28 | 65.89 | **71.50** | 5.61 | 73.92 | 76.35 |
| 662 | Conwy | 55.46 | 54.18 | 55.91 | **60.00** | 4.09 | 62.42 | 64.85 |
| 663 | Denbighshire | 55.64 | 56.07 | 58.71 | **62.00** | 3.29 | 64.42 | 66.85 |
| 664 | Flintshire | 61.87 | 60.61 | 61.55 | **68.99** | 7.44 | 71.41 | 73.84 |
| 665 | Wrexham | 50.98 | 52.07 | 55.32 | **61.74** | 6.42 | 64.16 | 66.59 |
| | GwE | 57.07 | 57.46 | 59.59 | **65.01** | 5.42 | **67.43** | **69.85** |
| | Cymru | 55.44 | 57.95 | 60.29 | *62.71* | *2.42* | *65.14* | *67.56* |

## Trothwy Lefel 2+ / Level 2+ Threshold PYD/FSM

| 13/14 | 14/15 | 15/16 | **Targed 16/17 Target** | +/- | 17/18 PYD FSM | 18/19 PYD FSM |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 41.41 | 35.87 | 28.74 | **34.18** | 5.44 | 38.09 | 42.01 |
| 32.00 | 31.82 | 42.37 | **47.81** | 5.44 | 51.73 | 55.65 |
| 25.30 | 31.03 | 39.31 | **44.75** | 5.44 | 48.67 | 52.59 |
| 25.95 | 30.29 | 39.33 | **44.77** | 5.44 | 48.69 | 52.61 |
| 37.27 | 35.15 | 33.14 | **38.58** | 5.44 | 42.50 | 46.41 |
| 26.67 | 21.13 | 23.63 | **29.07** | 5.44 | 32.99 | 36.90 |
| 30.50 | 30.12 | 34.08 | **39.52** | 5.44 | **44.96** | **48.88** |
| 27.76 | 31.63 | 35.60 | *39.52* | 3.92 | *43.44* | *47.36* |

## Trothwy Lefel 2 / Level 2 Threshold

| | | 13/14 | 14/15 | 15/16 | Targed 16/17 Target | +/- | Targed 17/18 Target | Targed 18/19 Target |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 660 | Ynys Mon | 85.60 | 83.14 | 82.82 | **79.06** | -3.76 | 79.91 | 80.77 |
| 661 | Gwynedd | 87.66 | 88.86 | 85.87 | **85.60** | -0.27 | 86.45 | 87.31 |
| 662 | Conwy | 85.76 | 83.62 | 82.05 | **84.00** | 1.95 | 84.85 | 85.71 |
| 663 | Denbighshire | 88.81 | 86.00 | 83.65 | **87.00** | 3.35 | 87.85 | 88.71 |
| 664 | Flintshire | 82.66 | 83.19 | 82.60 | **85.12** | 2.52 | 85.97 | 86.83 |
| 665 | Wrexham | 73.92 | 71.89 | 73.38 | **81.29** | 7.91 | 82.14 | 83.00 |
| | GwE | 83.85 | 82.74 | 81.60 | **84.10** | 2.50 | **84.95** | **85.81** |
| | Cymru | 82.34 | 84.10 | 84.05 | *84.90* | *0.85* | *85.76* | *86.61* |

## Trothwy Lefel 2 / Level 2 Threshold PYD/FSM

| 13/14 | 14/15 | 15/16 | **Targed 16/17 Target** | +/- | 17/18 PYD FSM | 18/19 PYD FSM |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 74.75 | 65.22 | 60.92 | **71.37** | 10.45 | 81.82 | 84.95 |
| 71.33 | 69.70 | 77.97 | **88.42** | 10.45 | 98.87 | 100.00 |
| 75.30 | 80.69 | 75.17 | **85.62** | 10.45 | 96.07 | 99.20 |
| 71.89 | 73.14 | 71.33 | **81.78** | 10.45 | 92.23 | 95.36 |
| 65.84 | 70.30 | 63.31 | **73.76** | 10.45 | 84.21 | 87.34 |
| 50.00 | 44.33 | 43.96 | **54.41** | 10.45 | 64.86 | 67.99 |
| 67.48 | 66.33 | 64.28 | **74.73** | 10.45 | **85.18** | **88.31** |
| 65.34 | 69.42 | 71.60 | *74.73* | 3.13 | *77.86* | *80.99* |

Trothwy Lefel 1 / Level 1 Threshold

| | | 13/14 | 14/15 | 15/16 | Targed 16/17 Target | +/- | Targed 17/18 Target | Targed 18/19 Target |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 660 | Ynys Mon | 96.02 | 96.33 | 96.27 | **98.18** | 1.91 | 98.81 | 99.45 |
| 661 | Gwynedd | 97.22 | 97.94 | 97.27 | **99.80** | 2.53 | 100.00 | 100.00 |
| 662 | Conwy | 95.61 | 95.64 | 94.31 | **97.00** | 2.69 | 97.63 | 98.27 |
| 663 | Denbighshire | 95.20 | 94.85 | 93.66 | **97.00** | 3.34 | 97.63 | 98.27 |
